RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
77/2024
DYDDIAD CYHOEDDI:
12/12/2024

# Arolwg o incwm a gwariant myfyrwyr, 2021 i 2022: adroddiad Cymraeg

This document is also available in English

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83625-959-6

Arolwg o incwm a gwariant myfyrwyr, 2021 i 2022: adroddiad Cymraeg

Canolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol a Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth

Awduron:

NatCen Social Research: Tina Haux, Sarah Frankenburg, Susan Reid, Sarah Butt, Amy Dyer, Lana MacNaboe, Julia Ruddick-Trentmann, and Charles Wilson

Institute for Employment Studies: Emma Pollard, Clare Huxley, Matthew Williams, Dan Muir, Rachel Cetera, and Zoë Gallagher

Adroddiad Ymchwil Llawn: Haux, T., Frankenburg, S., Reid, S., Butt, S., Dyer, A., MacNaboe, L., Ruddick-Trentmann, J., Wilson, C., Pollard, E., Huxley, C., Williams, M., Muir, D., Cetera, R., Gallagher, Z. (2024). *Teitl yr adroddiad*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad GSR Rhif 77/2024.
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/arolwg-o-incwm-gwariant-myfyrwyr-medi-2021-i-awst-2022

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Emma Hall

Adran: Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: KASEmployabilityandSkillsResearch@llyw.cymru

# Cynnwys


1. Crynodeb gweithredol ........ 6
    Dull ........ 7
2. Canfyddiadau allweddol ........ 9
3. Incwm (ac eithrio Benthyciadau Ffioedd Dysgu a Grantiau Ffioedd) ........ 11
4. Incwm (gan gynnwys Benthyciadau Ffioedd Dysgu) ........ 22
5. Dylanwadau cyllid ar benderfyniadau a phrofiadau AU ........ 26
6. Cymariaethau incwm â Lloegr ........ 29
7. Gwariant (ac eithrio ffioedd dysgu) ........ 33
8. Cyfanswm gwariant (gan gynnwys ffioedd dysgu) ........ 41
9. Cymariaethau gwariant â Lloegr ........ 41
10. Sefyllfa ariannol ........ 43
11. Cymariaethau o’r sefyllfa ariannol â Lloegr ........ 46
12. Rhagor o wybodaeth ........ 50
13. Atodiad A – Manylion technegol ........ 51

## Rhestr Termau o eiriau allweddol, acronymau a diffiniadau

### Myfyriwr cymwys

I’w cynnwys yn yr arolwg, rhaid i fyfyrwyr fodloni pob un o’r meini prawf canlynol:

- Bod wedi’u cofrestru gyda darparwr addysg uwch (DAU) yng Nghymru neu yn Lloegr, sefydliad addysg bellach (SAB) yng Nghymru neu yn Lloegr neu wedi’u cofrestru gyda’r Brifysgol Agored. Caiff myfyrwyr eu samplu yn erbyn eu sefydliad cofrestredig ac nid eu sefydliad addysgu.
- Preswylio’n arferol yn y DU am dair blynedd cyn dechrau’r cwrs, a phreswylio’n arferol (byw fel arfer) yng Nghymru neu yn Lloegr cyn dechrau eu cwrs.
- Bod yn astudio ar gwrs lefel gradd (Gradd baglor, Gradd sylfaen, Diploma Cenedlaethol Uwch, Tystysgrif Genedlaethol Uwch, Diploma/Tystysgrif Addysg Uwch, Gradd Meistr integredig, cwrs gofal iechyd cyn-gofrestru) neu ar gwrs TAR/Hyfforddiant cychwynnol athrawon. Mae hyn yn cynnwys pob pwnc a phob blwyddyn astudio. Fodd bynnag, nid yw’n cynnwys y rhai sydd ym mlwyddyn leoliad eu cwrs rhyngosod na’r rhai sydd ar eu blwyddyn dramor yn 2021/22, y rhai sydd ar Brentisiaeth Gradd, neu’r rhai sydd ar gwrs sylfaen arunigol un flwyddyn nad yw’n rhan o gwrs hirach.
- Bod yn astudio ar gwrs amser llawn neu gwrs rhan-amser (gan gynnwys dysgu o bell) sy'n gyfwerth ag o leiaf 25% o gwrs cyfwerth ag amser llawn (gweler myfyriwr rhan-amser).
- Wedi dechrau eu rhaglen/cwrs yn ystod neu ar ôl blwyddyn academaidd 2016/17.

### Myfyriwr rhan-amser

Diffinnir myfyrwyr rhan-amser fel y rhai ar gyrsiau sy'n gyfwerth ag o leiaf 0.25 o gwrs amser llawn. Gall hyn fod yn seiliedig ar yr amser y mae'r cwrs yn ei gymryd mewn blwyddyn academaidd NEU'R gyfran o ran gwerth academaidd e.e. credydau neu fodiwlau (e.e. 30 pwynt credyd neu fwy).

### Blwyddyn Academaidd

Mae’r flwyddyn academaidd yn para tua naw mis (Hydref i Fehefin) ond mae dyddiadau’r tymhorau yn amrywio rhwng sefydliadau. Lle bo modd, casglwyd dyddiadau dechrau a gorffen cywir am flwyddyn academaidd 2021/22 ar gyfer pob sefydliad a gymerodd ran, ond wrth gyfrifo amcangyfrifon, pennwyd y flwyddyn academaidd yn 39 wythnos.

Mae amser tymor yn cyfeirio at y cyfnodau pan fydd myfyrwyr yn astudio, ac fel arfer mae tri thymor mewn blwyddyn academaidd. Fodd bynnag, mae gan rai sefydliadau

ddau dymor neu semester, gan gynnwys cyfnodau arholiadau pan nad yw myfyrwyr yn cael eu dysgu.

**Gradd garlam**

Mae graddau carlam yn cynnig yr un cymwysterau a'u hansawdd yn cael ei sicrhau yn yr un modd â gradd safonol, ond fe'u cyflwynir dros gyfnod byr, mwy dwys. Er enghraifft, bydd gradd garlam dwy flynedd yn crynhoi graddau tair blynedd gyda 30 wythnos o addysgu yn 2 flynedd gyda 45 wythnos o addysgu yn y ddwy flynedd academaidd. Gall myfyrwyr ar gyrsiau gradd garlam gael mynediad at yr un pecyn cymorth ariannol â myfyrwyr sydd ar gyrsiau o'r hyd safonol. Fodd bynnag, uchafswm ffi cyrsiau gradd garlam yn Lloegr yw £11,100. Uchafswm y benthyciad ffioedd sydd ar gael i fyfyrwyr sydd â'u cartref yng Nghymru yw £9,250 a rhaid i'r myfyriwr dalu unrhyw swm sy'n weddill.

**Priod/cydgyfrifoldeb ariannol**

Mae'r categori myfyrwyr hwn yn cynnwys rhai sydd naill ai'n briod, yn rhannu cost tai neu wariant hanfodol arall yn rheolaidd gyda phartner, neu sydd â chyfrif banc neu gymdeithas adeiladu ar y cyd â phartner. Mae incwm a gwariant personol y myfyrwyr hyn yn cael eu heffeithio gan eu partner, ac felly gwneir addasiad i adlewyrchu eu cyllid a rennir. Gall y lefel incwm sy'n deillio o hyn fod yn bositif (sy'n dangos bod y myfyriwr yn derbyn mwy gan ei bartner nag y mae'n ei gyfrannu) neu yn negatif (sy'n dangos bod y myfyriwr yn cyfrannu mwy at ei bartner nag y mae'n ei dderbyn).

Y dull addasu oedd rhannu'r incwm neu'r gwariant ar y cyd â dau.

**Myfyriwr dibynnol/annibynnol (y cyfeirir ato fel statws y myfyriwr)**

Myfyrwyr dibynnol yw pob myfyriwr amser llawn sy'n bodloni pob un o'r meini prawf canlynol: maent o dan 25 oed, heb briodi (nac mewn partneriaeth sifil), heb fod yn ariannol annibynnol am dair blynedd cyn dechrau eu cwrs, a heb blant eu hunain yn byw gyda nhw sy'n 16 oed neu'n iau, neu sydd mewn addysg amser llawn ac yn 17 neu 18 oed.

Myfyrwyr annibynnol yw pob myfyriwr rhan-amser neu amser llawn sy'n bodloni unrhyw un o'r meini prawf canlynol: maent yn 25 oed neu'n hŷn, yn briod (neu mewn partneriaeth sifil), yn ariannol annibynnol (ac wedi bod am o leiaf tair blynedd cyn dechrau ar eu cwrs), neu mae ganddynt blant eu hunain yn byw gyda nhw sy'n 16 oed neu'n iau, neu sydd mewn addysg amser llawn ac yn 17 neu 18 oed.

Mae statws yn deillio o nifer o newidynnau yn yr holiadur: pa un ai yn amser llawn neu'n rhan-amser; o dan 25 oed, neu 25 oed neu'n hŷn; yn briod/mewn partneriaeth sifil; ag unrhyw blant dibynnol yn byw gyda nhw; ac yn ariannol annibynnol am 3 blynedd neu fwy cyn dechrau'r cwrs.

**Grŵp economaidd-gymdeithasol (neu ddosbarth cymdeithasol)**

Mae categoreiddio grŵp economaidd-gymdeithasol neu ddosbarth cymdeithasol yn seiliedig ar nifer o gwestiynau ac yn dilyn yr hyn a ddefnyddir mewn arolygon cenedlaethol. Y dosbarthiad a ddefnyddir yw'r Dosbarthiad Economaidd-Gymdeithasol Ystadegau Gwladol (NS-SEC) ac mae'n deillio o'r canlynol:

- Myfyrwyr annibynnol amser llawn: Mae NS-SEC yn seiliedig ar swydd ddiwethaf am dâl y myfyriwr cyn iddo ddechrau ei gwrs.
- Myfyrwyr dibynnol amser llawn: Mae NS-SEC yn seiliedig ar swydd prif enillydd incwm y tŷ lle’r oedd y myfyriwr yn byw cyn dechrau ei gwrs.
- Myfyrwyr rhan-amser: Mae NS-SEC yn seiliedig ar swydd bresennol neu swydd ddiwethaf am dâl y myfyriwr.
- Mae'r NS-SEC wedi'i grwpio'n dri chategori ar gyfer dadansoddi: rheoli a phroffesiynol (NS-SEC 1 a 2), galwedigaethau canolraddol (NS-SEC 3 a 4), a galwedigaethau arferol a gwaith llaw (NS-SEC 5 i 8).

**Math o aelwyd/teulu**

Mae hyn yn cyfeirio at drefniadau byw yn ystod y tymor, ac mae'n dibynnu ar i ba raddau yr oedd pobl yn rhannu llety a chyfrifoldebau ariannol, neu a oedd ganddynt gyfrifoldebau ariannol dros eraill. Ar ôl gofyn sawl cwestiwn, cofnodwyd myfyrwyr yn y categorïau canlynol:

- Teulu dau oedolyn: myfyriwr yn byw mewn aelwyd gyda phartner oedolyn arall a phlentyn/plant.
- Teulu rhiant unigol: myfyriwr oedolyn sengl yn byw mewn aelwyd gyda phlentyn/plant. Cyfeirir at y myfyriwr hefyd fel rhiant sengl neu riant unigol.
- Cwpl: myfyriwr sy’n briod/byw gyda phartner oedolyn ond heb blant.
- Sengl: myfyriwr sengl nad yw’n rhannu llety/cyfrifoldebau ariannol, ac nad oes ganddo blentyn/plant. Mae myfyrwyr sengl yn debygol o fyw mewn llety a rennir, h.y. rhentu gyda theulu neu ffrindiau, neu fyw mewn llety prifysgol, ac efallai eu bod hefyd mewn perthynas barhaol.

**Cartref**

Cymerir bod cartref yn golygu preswylfa arferol myfyriwr cyn iddo ddechrau ei raglen astudio Addysg Uwch (a all fod yn wahanol i’w genedligrwydd). Mae cyfeiriadau at fyfyrwyr o Loegr, neu sy’n hanu o Loegr, yn cyfateb i ddweud mai Lloegr yw eu cartref; ac yn yr un modd mae myfyrwyr o Gymru, neu sy’n hanu o Gymru yn cyfateb i ddweud mai Cymru yw eu cartref.

**Profiad rhieni o Addysg Uwch**

Gofynnwyd i fyfyrwyr a oedd eu rhieni wedi mynychu prifysgol neu goleg addysg uwch, gan gynnwys polytechnig. Roedd hyn yn cynnwys llys-rieni hefyd os oedd y myfyriwr yn teimlo ei fod wedi cael ei fagu ganddynt.

**Gwaith dros dro**

Cyfeirir at hyn fel 'Gwaith arall am dâl (ac eithrio gwaith dros wyliau'r haf) yn y tablau 'Ffynonellau Incwm'.

**Ffynonellau incwm**

Rhennir incwm myfyrwyr yn chwe is-gategori: prif ffynonellau cymorth i fyfyrwyr, ffynonellau cymorth eraill i fyfyrwyr, enillion o waith am dâl, cymorth ariannol gan deulu, budd-daliadau a chymorth ariannol cysylltiedig, a chymorth amrywiol eraill.

**Prif ffynonellau cymorth i fyfyrwyr**

Cyfeirir at brif ffynonellau cymorth i fyfyrwyr fel 'prif ffynonellau' am eu bod yn elfennau canolog o Gyllid Myfyrwyr Llywodraeth Cymru. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu mai nhw yw'r ffynonellau incwm mwyaf ar gyfer pob myfyriwr neu rai myfyrwyr. Mae'r prif ffynonellau cymorth i fyfyrwyr hyn yn cynnwys: benthyciadau Ffioedd Dysgu ad-daladwy a Grantiau Ffioedd nad ydynt yn ad-daladwy (grantiau ar gyfer myfyrwyr parhaus a ddechreuodd cyn blwyddyn academaidd 2018 i 2019 yn unig); Benthyciadau Cynhaliaeth Ad-daladwy a Grantiau Cynhaliaeth nad ydynt yn ad-daladwy i gefnogi costau byw, a Chronfeydd Caledi/Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn (a elwir yn Gronfeydd Caledi yn Lloegr).

**Prif ffynonellau gwariant**

Mae hyn yn cyfeirio at ffynonellau gwariant a gasglwyd naill ai o'r arolwg neu o ddata'r dyddiaduron. Mae tablau sy'n cyflwyno data dyddiaduron yn cyfeirio at gostau byw a chostau cyfranogi fel prif ffynonellau gwariant, ac mae tablau sy'n cyflwyno data arolwg yn cyfeirio at gostau tai a gwariant ar blant fel prif ffynonellau gwariant myfyrwyr. Adlewyrchir hyn yn nheitlau'r tablau, troednodiadau a phenawdau rhesi pob tabl perthnasol.

## Crynodeb gweithredol

1.1 Comisiynwyd yr Arolwg o Incwm a Gwariant Myfyrwyr 2021 i 2022 (AIGM) gan yr Adran Addysg gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru. Cynhaliwyd yr astudiaeth mewn partneriaeth gan Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol a'r Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth. Mae'r crynodeb hwn yn cyflwyno canfyddiadau allweddol i fyfyrwyr o Gymru.[1] Mae adroddiad technegol[2] a set lawn o dablau hefyd ar gael,[3] ynghyd â chrynodeb ar wahân sy'n cwmpasu myfyrwyr o Loegr.[4]

1.2 Nod yr arolwg oedd darparu adroddiad awdurdodol ar sefyllfa ariannol myfyrwyr addysg uwch yng Nghymru a Lloegr ym mlwyddyn academaidd 2021 i 2022. Roedd hefyd yn ceisio mesur effaith newidiadau i'r pecyn cymorth ariannol i fyfyrwyr drwy gymharu canlyniadau â'r arolwg blaenorol a gynhaliwyd yn 2014 i 2015. Y prif newidiadau i'r polisi cymorth i fyfyrwyr yng Nghymru oedd:

- Rhewi ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr amser llawn sy'n astudio mewn sefydliadau yng Nghymru ar lefelau 2012 i 2013 (uchafswm o £9,000 y flwyddyn[5]).
- Cael gwared â'r grant ffioedd heb brawf modd i fyfyrwyr a oedd yn dechrau eu rhaglen Addysg Uwch o 1 Medi 2018 gyda benthyciadau dysgu yn cymryd ei le, ac ailffocysu cymorth tuag at helpu gyda chostau byw i'r rhai sydd fwyaf mewn angen trwy grantiau cynhaliaeth graddedig sy'n dibynnu ar brawf modd[6] a benthyciadau cynhaliaeth.
- Cyflwyno cymorth ar gyfer costau byw i fyfyrwyr rhan-amser a oedd yn dechrau eu rhaglen Addysg Uwch o 1 Medi 2018, trwy grantiau a benthyciadau.

---

[1] Myfyrwyr sy'n hanu o Gymru, y rhai oedd yn byw yng Nghymru cyn dechrau eu rhaglen Addysg Uwch, ac sy'n astudio mewn sefydliad yng Nghymru neu yn Lloegr.

[2] Mae'r adroddiad technegol yn rhoi disgrifiad llawn o'r dyluniad sampl, y casglu data a chynnwys y set ddata ar gyfer AIGM Cymru a Lloegr ac mae ar gael yn Student income and expenditure survey: 2021 to 2022 - GOV.UK (www.gov.uk). Mae Atodiad A yr adroddiad hwn yn dangos data technegol ar gyfer Cymru yn unig.

[3] Mae'r tablau yn cynnwys mwy o fanylder, gan gynnwys gwybodaeth am ffynonellau a symiau incwm a gwariant myfyrwyr, a dadansoddiad yn ôl nodweddion demograffig allweddol myfyrwyr megis rhywedd a grŵp economaidd-gymdeithasol, a nodweddion astudio allweddol megis y flwyddyn astudio a'r math o gwrs.

[4] Student Income and Expenditure Survey 2021 to 2022 Report (publishing.service.gov.uk)

[5] Newidiwyd ffioedd dysgu yn 2012 i 2013 i gynyddu uchafswm y ffi y gallai sefydliadau yng Nghymru ei chodi hyd at £9,000 y flwyddyn ar gyfer cyrsiau gradd amser llawn.

[6] Roedd y pecyn cymorth yn cynnwys grant cynhaliaeth graddedig sy'n dibynnu ar brawf modd a benthyciadau cynhaliaeth. Roedd gan bob myfyriwr hawl i grant cynhaliaeth o £1,000.

### Dull

1.3 Roedd arolwg 2021 i 2022 yn cynnwys myfyrwyr amser llawn a rhan-amser mewn darparwyr addysg uwch (DAU) gan gynnwys y Brifysgol Agored, a sefydliadau addysg bellach (SAB) a oedd yn cymryd rhan mewn cyrsiau gradd yn ystod blwyddyn academaidd 2021 i 2022. Casglwyd data rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2022 drwy:

- Arolwg ar-lein 30 munud neu gyfweliad dros y ffôn gyda sampl gynrychioliadol a ddewiswyd ar hap[7] o 1,414 o fyfyrwyr amser llawn a 739 o fyfyrwyr rhan-amser a oedd yn hanu o Gymru mewn 78 o sefydliadau yng Nghymru a Lloegr (gan gynnwys y Brifysgol Agored)[8].
- Cwblhawyd dyddiaduron gwariant ar-lein, gyda manylion gwariant myfyrwyr amser llawn a rhan-amser dros gyfnod o 7 diwrnod, gan 851 o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru. Mae'r cyfartaledd 7 diwrnod yn cael ei luosi â 39 i gynrychioli gwariant drwy gydol y flwyddyn academaidd.

### Ystadegau disgrifiadol a ddefnyddiwyd

1.4 Mae'r crynodeb hwn yn cyflwyno canfyddiadau ar gyfer blwyddyn academaidd 2021 i 2022, y tybiwyd ei bod yn 39 wythnos ar gyfer pob myfyriwr (gan ddilyn y dull a ddefnyddiwyd mewn AIGM blaenorol).[9] Yn y crynodeb hwn, cyflwynir gwerthoedd cyfartalog canolrifol ar gyfer data incwm a gwariant (data parhaus).[10] Cyflwynir symiau cyfartalog canolrifol ar gyfer pob myfyriwr (a all gynnwys myfyrwyr nad ydynt yn derbyn math penodol o incwm neu fyfyrwyr nad oes ganddynt fath penodol o wariant ac felly mae ganddynt werth sero am y ffynhonnell honno o incwm neu'r math hwnnw o wariant), ynghyd â'r symiau cyfartalog canolrifol ar gyfer myfyrwyr sydd yn talu'r costau hyn neu sy'n derbyn y ffynonellau hynny o incwm. Gall y ffigurau hyn amrywio'n sylweddol, yn enwedig pan fo cyfran yr holl fyfyrwyr sy'n cael eu heffeithio yn fach iawn, felly mewn rhai achosion y canolrif ar draws pob myfyriwr yw £0 (ac nid yw'n cael ei adrodd yn y crynodeb hwn, ond mae data o £0 yn cael ei adrodd yn y

---

[7] Mae'r data'n gynrychioliadol o'r boblogaeth myfyrwyr oherwydd y samplu a'r pwysoli sy'n addasu ar gyfer y tebygolrwydd dethol a'r duedd diffyg ymateb ac wedyn mae'r pwysoli'n cael ei raddnodi i oedran a rhyw hysbys y boblogaeth myfyrwyr. Mae rhagor o fanylion am samplu a phwysoli yn yr adroddiad technegol sydd ar gael yma [Student income and expenditure survey: 2021 to 2022 - GOV.UK (www.gov.uk)](https://www.gov.uk).

[8] Cwblhawyd yr arolwg gan 1,790 o ymatebwyr ar y we a chan 363 dros y ffôn.

[9] Mae adroddiad AIGM Lloegr 2014 i 2015 ar gael yma Student income and expenditure survey 2014 to 2015 - GOV.UK (www.gov.uk)

[10] Defnyddir canolrifau, oherwydd mewn rhai meysydd nid yw'r data incwm a gwariant wedi'u dosbarthu'n gymesur neu'n 'arferol', er enghraifft roedd dosbarthiad cyfanswm yr incwm wedi'i ystumio'n gadarnhaol gyda 'chynffon' hir o werthoedd uchel. Y gwerth canolrifol yw'r gwerth canol, lle mae 50% o'r gwerthoedd uwch ei ben a 50% o'r gwerthoedd yn is na hynny ac mae'n rhoi gwell syniad o dueddiadau cyffredinol yn y data. Yn y set tablau llawn, darperir gwerthoedd cymedrig, gwallau safonol a seiliau heb eu pwysoli ynghyd â gwerthoedd canolrifol.

tablau). Mae’r adroddiad cryno hefyd yn dangos cyfansoddiad cyfanswm gwariant a chyfanswm incwm ar gyfer pob myfyriwr, mae hyn yn seiliedig ar gyfartaleddau cymedrig am fod gan y rhain berthynas uniongyrchol â chyfansymiau (nad oes gan y canolrifau). Mae'r adran sy'n archwilio dylanwadau cyllid (data categoreiddiol) yn cyflwyno canrannau ac yn defnyddio profion chi-sgwâr i ddangos gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol mewn ymatebion.

**Gwneud cymariaethau**

1.5 Yn y crynodeb hwn mae'r canlyniadau ar gyfer 2021 i 2022 yn cael eu cymharu â'r canlyniadau o'r arolwg blaenorol a gynhaliwyd yn 2014 i 2015. Roedd y dull ymchwil ar gyfer arolwg 2021 i 2022 yn dilyn y dull a ddefnyddiwyd yn 2014 i 2015 yn benodol er mwyn gallu cymharu. At y diben hwnnw, mae ffigurau 2014 i 2015 wedi'u huwchraddio[11] i gyfrif am newidiadau byd real mewn costau a chwyddiant. Mae'r dull uwchraddio a ddefnyddiwyd yn adlewyrchu'r newidiadau yn y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) neu Enillion Wythnosol Cyfartalog (AWE) rhwng mis Ebrill 2015 a mis Ebrill 2022 (dechrau'r cyfnodau gwaith maes perthnasol) sef y dull a ddefnyddiwyd mewn AIGM blaenorol, ond parhaodd costau byw i gynyddu y tu hwnt i'r cyfnod gwaith maes, gyda chwyddiant yn cyrraedd uchafbwynt ym mis Hydref 2022. Byddai hyn wedi effeithio ar fforddiadwyedd nwyddau a gwasanaethau i fyfyrwyr gan gynnwys cynnydd mewn prisiau rhent a bwyd.[12] Dylid nodi hefyd bod

[11] Nid yw'n briodol cymharu ffigurau 2014 i 2015 â ffigurau 2021 i 2022 heb wneud rhai addasiadau ar gyfer chwyddiant. Mae addasu neu uwchraddio ffigurau 2014 i 2015 yn helpu i sicrhau bod unrhyw newidiadau a ganfyddir yn symudiadau gwirioneddol yn y proffil incwm neu ymddygiad gwario yn hytrach nag arteffact o brisiau uwch yn gyffredinol. Felly mae’r holl werthoedd ariannol sy’n ymwneud â 2014 i 2015 gan gynnwys cyfanswm yr incwm a chyfanswm y gwariant wedi’u huwchraddio gan 1.297, gan adlewyrchu’r newidiadau yn y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) rhwng mis Ebrill 2015 a mis Ebrill 2022 (dechrau’r cyfnodau gwaith maes perthnasol). Yr eithriadau yw, a) wrth ymdrin yn unig â gwerthoedd sy’n ymwneud ag incwm o waith am dâl sydd wedi’u huwchraddio gan fynegai Cyfanswm Cyflog Cyfartalog Enillion Wythnosol (AWE) o 1.255, a ii) wrth ymdrin â gwerthoedd sy’n ymwneud â ffioedd yn unig (Incwm Benthyciad Ffioedd Dysgu, incwm Grant Ffioedd a ffioedd dysgu a dalwyd) lle nad oedd chwyddiant yn effeithio arnynt ac nad oeddent wedi cynyddu i fyfyrwyr o Gymru sy’n astudio mewn sefydliadau yng Nghymru rhwng y ddau arolwg er iddynt gynyddu 2.8% rhwng y ddau arolwg i fyfyrwyr o Gymru sy’n astudio mewn sefydliadau yn Lloegr ac felly cyfrifwyd mynegai wedi’i bwysoli i gyfrif am hyn. Efallai na fydd symudiadau yn y mynegeion yn adlewyrchu’r newid gwirioneddol mewn costau neu enillion gan fyfyrwyr ond byddant yn rhoi gwell syniad o newidiadau gwirioneddol yn lefelau a chyfansoddiad incwm a gwariant myfyrwyr, yn enwedig pan oedd costau byw yn newid mor gyflym ar adeg gwaith maes yr arolwg.

[12] Yr uchafbwynt, a fesurwyd gan ddefnyddio'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr, oedd 11.2%, Gweler Consumer price inflation, UK - Office for National Statistics

gwallau[13] mewn ffigurau ar gyfer 2014 i 2015 wedi'u cywiro mewn rhai mannau a bod y samplau ar gyfer arolygon 2021 i 2022 a 2014 i 2015 yn wahanol. Roedd arolwg 2021 i 2022 yn cynnwys myfyrwyr ar raglenni hirach,[14] ond roedd arolwg 2014 i 2015 yn eithrio'r rhai ym mlwyddyn 4 neu uwch. Am ddisgrifiad llawn o'r dull, gweler yr adroddiad technegol.

## 2. Canfyddiadau allweddol

### Cyfanswm incwm

2.1 Cynyddodd cyfanswm yr incwm canolrifol ar draws yr holl fyfyrwyr amser llawn (ac eithrio unrhyw incwm o Fenthyciadau Ffioedd Dysgu a Grantiau Ffioedd) 9% o £12,267 yn 2014 i 2015 (addaswyd ar gyfer chwyddiant) i £13,425 yn 2021 i 2022.

2.2 Cynyddodd cyfanswm yr incwm canolrifol ar draws yr holl fyfyrwyr rhan-amser (ac eithrio incwm o Fenthyciadau Ffioedd Dysgu a Grantiau Ffioedd) 12% o £15,581 (addaswyd) yn 2014 i 2015 i £17,490 yn 2021 i 2022.

### Cymorth cynhaliaeth (cymorth y llywodraeth ar gyfer costau byw)

2.3 Darperir cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer costau byw myfyrwyr amser llawn gan Fenthyciadau Cynhaliaeth ad-daladwy a'r Grant Cynhaliaeth[15] (neu'r Grant Cymorth Arbennig). Mae gan bob myfyriwr sy'n hanu o Gymru hawl i isafswm grant o £1,000 a gallant dderbyn symiau grant ychwanegol yn dibynnu ar incwm eu cartref.

2.4 Yr incwm canolrifol ar draws yr holl fyfyrwyr amser llawn o Fenthyciadau Cynhaliaeth yn 2021 i 2022 oedd £6,000, roedd hyn yn gynnydd o 42% o £4,215

[13] Ers cyhoeddi adroddiad 2014 i 2015, nodwyd gwall yn y modd yr oedd costau tai yn cael eu cyfrifo. Roedd y gwall hwn, yn ymwneud â gwariant ar dreth y cyngor, yn golygu bod costau tai yn cael eu tangofnodi yn adroddiad 2014 i 2015. Roedd hyn yn effeithio'n bennaf ar fyfyrwyr rhan-amser a oedd yn fwy tebygol o dalu treth y cyngor na myfyrwyr amser llawn. Mae'r gwall hwn wedi'i gywiro yn ffigyrau tai 2014 i 2015 a adroddir yn y crynodeb hwn. Mae’n bosibl y bydd ffigurau 2021 i 2022 a gyflwynir yma yn tangynrychioli cyfanswm y gwariant ac yn benodol gwariant ar gostau byw o gymharu â 2014 i 2015, mae hyn oherwydd gwahaniaeth yn y ffordd y cafodd ‘costau byw eraill’ eu trin rhwng y ddau arolwg. Ym mlynyddoedd y ddau arolwg, gallai ymatebwyr a lenwodd ddyddiadur gwariant gofnodi unrhyw wariant ar gostau byw eraill nas crybwyllwyd yn flaenorol. Yn seiliedig ar ganfyddiadau arolwg 2014 i 2015, rydym yn gwybod yn ymarferol na fydd llawer o’r gwariant ‘arall’ hwn yn wariant ychwanegol, ond yn hytrach yn wariant dyblyg, sydd eisoes wedi’i gofnodi mewn rhan arall o’r holiadur. Nid oedd prosesu data yn 2021 i 2022 yn cyfrif am y dyblygu posibl hwn, ac felly yn hytrach na gor-adrodd gwariant yn 2021 i 2022 penderfynwyd peidio â chynnwys unrhyw ran o’r gwariant a gynhwyswyd o dan ‘costau byw eraill’ yn y cyfansymiau a adroddwyd.

[14] Roedd cyfran y myfyrwyr a oedd ym mlwyddyn 4 neu uwch yn 2021 i 2022, yn 6.5% o fyfyrwyr amser llawn a 14.2% o fyfyrwyr rhan-amser a oedd yn hanu o Gymru. Roedd arolwg 2021 i 2022, am y tro cyntaf, yn cynnwys myfyrwyr ar raglenni graddau carlam, sef rhaglenni byrrach i bob pwrpas. Mae'r tablau data a gyhoeddir ar wahân yn darparu canfyddiadau i'r myfyrwyr hyn.

[15] Ar gyfer myfyrwyr a ddechreuodd eu rhaglen AU cyn Awst 2018, gelwir y grant yn Grant Dysgu Llywodraeth Cymru.

(addaswyd ar gyfer chwyddiant) yn 2014 i 2015. Yr incwm canolrifol ar draws yr holl fyfyrwyr amser llawn o Grantiau Cynhaliaeth yn 2021 i 2022 oedd £1,000, wedi mwy na threblu o'r swm rhwng 2014 i 2015 lle'r oedd hyn yn £289 (addaswyd). Yr incwm canolrifol ar draws yr holl fyfyrwyr amser llawn o fenthyciadau a grantiau gyda'i gilydd oedd £9,000, cynnydd o 51% o £5,966 yn 2014 i 2015 (addaswyd).

2.5 Nid yw pob myfyriwr wedi cymryd benthyciad cynhaliaeth neu dderbyn grant. Yn 2021 i 2022 cymerodd 77% o fyfyrwyr amser llawn fenthyciad, gan dderbyn canolrif o £8,000. Mae hyn yn cymharu ag 81% o fyfyrwyr amser llawn yn 2014 i 2015 gyda chanolrif o £4,687 (addaswyd), bron i hanner y swm a dderbyniwyd yn 2021 i 2022. Yn 2021 i 2022, derbyniodd 66% o fyfyrwyr amser llawn grant, gan dderbyn canolrif o £3,000, ond yn 2014 i 2015, derbyniodd 51% grant, ar gyfartaledd roedd hyn yn £4,669 (addaswyd). Mae hyn yn ostyngiad o 36%.

2.6 Ar draws yr holl fyfyrwyr rhan-amser, yr incwm canolrifol o fenthyciadau cynhaliaeth a grantiau gyda'i gilydd oedd £1,500. Nid oes modd cymharu â 2014 i 2015 gan nad oedd myfyrwyr rhan-amser yn gymwys i gael Benthyciadau Cynhaliaeth a Grantiau Cynhaliaeth yn 2014 i 2015. Fodd bynnag, yn 2014 i 2015, gallai myfyrwyr rhan-amser dderbyn Grant Cwrs i helpu gyda chostau byw. Yn 2014 i 2015, derbyniodd 27% Grant Cwrs, y canolrif a dderbyniwyd oedd £1,355 (addaswyd i swm cyfwerth 2021 i 2022). Yn 2021 i 2022, cymerodd 39% o fyfyrwyr Fenthyciad Cynhaliaeth gan dderbyn canolrif o £3,000, a derbyniodd 51% Grant Cynhaliaeth gyda chanolrif o £2,700. Dim ond 2% (o fyfyrwyr rhan-amser parhaus) a dderbyniodd Grant Cwrs yn 2021 i 2022.[16]

### Incwm o waith am dâl

2.7 Rhwng y ddau arolwg, cynyddodd incwm o waith am dâl ar draws yr holl fyfyrwyr amser llawn gan gyfrannu cyfran fwy o'r incwm cyffredinol. Arhosodd cyfran y myfyrwyr amser llawn sy'n gweithio ochr yn ochr â'u hastudiaethau yn weddol sefydlog (55% yn 2014 i 2015, a 54% yn 2021 i 2022) ond cynyddodd yr enillion canolrifol ar gyfer y rhai mewn gwaith am dâl 37% o £2,692 yn 2014 i 2015 (addaswyd ar gyfer chwyddiant) i £3,700 yn 2021 i 2022. Cynyddodd yr oriau a weithiwyd ychydig rhwng y ddau arolwg ar gyfer myfyrwyr amser llawn mewn swyddi dros dro yn ystod y tymor ond gostyngodd yn ystod gwyliau. Ar gyfer yr holl fyfyrwyr amser llawn mewn gwaith am dâl, arhosodd yr oriau canolrifol a weithiwyd

[16] Roedd nifer y derbynyddion yn rhy fach i allu darparu canolrif yn ddibynadwy ar gyfer y swm a dderbyniwyd.

yn yr wythnos cyn iddynt gael eu harolygu yr un fath yn 2014 i 2015 ac yn 2021 i 2022 sef 8 awr.

2.8 Roedd cyfran fwyaf incwm myfyrwyr rhan-amser yn parhau i ddod o waith am dâl, gan ddilyn patrymau a ddarganfuwyd mewn AIGM blaenorol. Fel y canfuwyd ar gyfer myfyrwyr amser llawn, parhaodd cyfran y myfyrwyr rhan-amser mewn gwaith am dâl yn gyson rhwng 2014 i 2015 i 2021 i 2022, a chynyddodd yr enillion canolrifol (er nad mor sylweddol). Cynyddodd enillion canolrifol y rhai mewn gwaith am dâl 14% o £15,060 yn 2014 i 2015 (addaswyd) i £17,100 yn 2021 i 2022.

**Gwariant**

2.9 Arhosodd cyfanswm y gwariant canolrifol (ac eithrio cost ffioedd dysgu) ar gyfer myfyrwyr amser llawn bron yr un fath rhwng 2014 i 2015 a 2021 i 2022 ar ôl addasu ar gyfer newidiadau mewn chwyddiant trwy uwchraddio, gyda chanolrif wedi'i addasu o £13,113 yn 2014 i 2015 o'i gymharu â £12,878 yn 2021 i 2022.

2.10 Gostyngodd cyfanswm gwariant canolrifol myfyrwyr rhan-amser (ac eithrio cost ffioedd dysgu) 27.5% rhwng 2014 i 2015 a 2021 i 2022, o ganolrif wedi'i addasu o £19,897 i £14,425 yn 2021 i 2022.

## 3. Incwm (ac eithrio Benthyciadau Ffioedd Dysgu a Grantiau Ffioedd)

3.1 Mae'r adran hon yn archwilio incwm myfyrwyr o flwyddyn academaidd 2021 i 2022, gan edrych ar fyfyrwyr amser llawn a rhan-amser ar wahân. Mae’r amcangyfrifon o incwm myfyrwyr yn defnyddio gwybodaeth a gasglwyd yn yr holiadur yn unig. Mae 30% o fyfyrwyr yn cyd-rannu cyfrifoldeb ariannol. Mae incwm ar gyfer myfyrwyr sy’n cyd-rannu cyfrifoldeb ariannol â phartner wedi'i addasu (lle barnwyd bod yr incwm hwnnw'n incwm ar y cyd yn hytrach nag yn incwm unigol) yn dilyn y dull a ddefnyddiwyd mewn arolygon blaenorol.[17]

3.2 Cyflwynir symiau cyfartalog canolrifol ar gyfer cyfanswm incwm ac elfennau allweddol incwm myfyrwyr, ac eithrio dylanwad Benthyciadau Ffioedd Dysgu a Grantiau Ffioedd. Yn ogystal, rhoddir cyfansoddiad cyfanswm incwm myfyrwyr (y gyfran y mae pob elfen yn ei chyfrannu tuag at gyfanswm incwm ac eithrio'r Benthyciadau Ffioedd Dysgu a Grantiau Ffioedd), cyfrifir hyn gan ddefnyddio

[17] Diffiniwyd cyd-gyfrifoldeb ariannol naill ai fel rhannu costau tai neu gostau hanfodol eraill yn rheolaidd gyda phartner. Y dull addasu oedd rhannu’r incwm ar y cyd â dau. Defnyddiwyd hwn wrth gyfrifo incwm budd-daliadau a chyfran o incwm partneriaid (sy’n bwydo i’r incwm gan y teulu). Rhoddir manylion llawn yn yr adroddiad technegol.

gwerthoedd cymedrig. Mae Benthyciadau Ffioedd Dysgu yn fenthyciadau sydd ar gael i fyfyrwyr i dalu am eu costau ffioedd dysgu, ond mae hwn yn arian nad yw'r myfyriwr mewn gwirionedd yn ei weld neu'n ei wario’n gorfforol (os yw'n cymryd y benthyciad) gan ei fod yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'w ddarparwr addysg uwch. Yn yr un modd, talwyd Grantiau Ffioedd Dysgu yn uniongyrchol i ddarparwyr addysg uwch ond cafodd y rhain eu hatal ar gyfer myfyrwyr newydd a oedd yn dechrau cyrsiau ar neu ar ôl blwyddyn academaidd 2018 i 2019.

3.3 Mae incwm myfyrwyr yn cynnwys chwe is-gategori incwm, ac mae pob un yn cael ei archwilio isod:

3.4 Prif ffynonellau cymorth i fyfyrwyr. Mae’r rhain yn ffurfio elfennau canolog Cyllid Myfyrwyr Llywodraeth Cymru ac yn cynnwys: benthyciadau Ffioedd Dysgu ad-daladwy a Grantiau Ffioedd nad ydynt yn ad-daladwy (grantiau ar gyfer myfyrwyr parhaus a ddechreuodd cyn blwyddyn academaidd 2018 i 2019 yn unig), archwilir y rhain mewn adran ar wahân (Adran 4) Benthyciadau Cynhaliaeth ad-daladwy a Grantiau Cynhaliaeth nad ydynt yn ad-daladwy i gefnogi costau byw, a Chronfeydd Caledi/Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn (a elwir yn Gronfeydd Caledi yn Lloegr).

3.5 Mae ffynonellau eraill o gymorth i fyfyrwyr yn wahanol i'r rhai sy'n cael eu cyfrif fel prif ffynonellau cymorth i fyfyrwyr. Mae'r rhain yn tueddu i gael eu targedu at grwpiau penodol o fyfyrwyr yn ôl nodweddion personol neu bwnc astudio, ac maent yn cynnwys cymorth sy'n gysylltiedig â phlant, Lwfans Myfyrwyr Anabl, cymorth y GIG, bwrsariaethau ac ysgoloriaethau DAU, a chymorth gan gyflogwyr, elusennau a sefydliadau eraill.

3.6 Enillion o waith am dâl, o swyddi parhaus (gwaith ar draws y flwyddyn academaidd lawn)[18] a swyddi mwy achlysurol (gwaith yn digwydd ar ryw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd).

3.7 Cymorth ariannol gan deuluoedd, gan gynnwys cymorth gan rieni, partneriaid a pherthnasau eraill, gyda chymorth ar ffurf cyfraniadau ariannol tuag at gostau astudio (gan gynnwys ffioedd dysgu), rhent a chostau byw, rhoddion arian, a gwerth rhoddion eraill fel cyfrifiaduron, nwyddau cartref, dillad ac ati.

3.8 Budd-daliadau a chymorth ariannol ategol, fel Budd-dal Plant, Credyd Cynhwysol a Chredyd Treth Plant.

[18] Gydag enillion o swyddi parhaus wedi’u cyfrifo am 39 wythnos, nid yw enillion yn ystod gwyliau’r haf wedi’u cynnwys yn y dadansoddiad hwn ond fe’u cyflwynir yn y set o dablau.

3.9 Incwm amrywiol arall gan gynnwys taliadau cynhaliaeth i blant, arian o bensiynau neu gyfranddaliadau, rhent gan letywyr ac arian a gynhyrchir trwy werthu llyfrau, cyfrifiaduron, offer ac ati.[19]

**Prif ffynonellau cymorth i fyfyrwyr**

**Myfyrwyr amser llawn**

3.10 Mae'r prif ffynonellau cymorth i fyfyrwyr gan gymorth cyllid myfyrwyr y Llywodraeth a Sefydliadau Addysg Uwch yn cynnwys y Benthyciad Ffioedd Dysgu, y Grant Ffioedd, y Benthyciad Cynhaliaeth a'r Grant Cynhaliaeth[20] i gefnogi costau byw, a Chronfeydd Caledi/Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn ar gyfer cymorth brys os yw myfyriwr mewn caledi ac angen cymorth ariannol ychwanegol (mae'r rhain yn wahanol i fwrsariaethau neu ysgoloriaethau prifysgol neu goleg).[21] Pan fydd incwm Benthyciad Ffioedd Dysgu a Grant Ffioedd yn cael ei ddileu o gyfrifiad cyfanswm incwm, mae'r prif ffynonellau cymorth i fyfyrwyr sy’n weddill yn dal i gyfrannu cyfran fwyaf o incwm myfyrwyr amser llawn. Roedd y rhain yn cyfrif am 55% o gyfanswm incwm cymedrig yr oedd gan fyfyrwyr i’w wario yn 2021 i 2022 ac roeddent yn cyfrif am 45% yn 2014 i 2015.

3.11 Yr incwm canolrifol ar draws yr holl fyfyrwyr amser llawn o'r prif ffynonellau cymorth i fyfyrwyr (ac eithrio Benthyciadau Ffioedd Dysgu a Grantiau Ffioedd) yn 2021 i 2022 oedd £9,000, o'i gymharu â £6,027 yn 2014 i 2015 (addaswyd ar gyfer chwyddiant), cynnydd mewn termau real o 49%.

---

[19] Mae'r ystadegau ar gyfer incwm amrywiol yn cael eu darparu yn y set o dablau.

[20] Yn flaenorol, roedd grantiau ar gyfer costau byw yn cael eu galw'n Grant Dysgu'r Cynulliad (cyn 2014) a Grant Llywodraeth Cymru (o 2014). Mae myfyrwyr sy'n gymwys i gael budd-daliadau penodol, sy'n rhieni sengl â phlant dibynnol neu sydd â phlant dibynnol ond mae eu partner hefyd yn fyfyriwr, yn gallu derbyn Grant Cymorth Arbennig (yn hytrach na grant cynhaliaeth). Mae mwy o wybodaeth am feini prawf cymhwysedd ar gael yma Penodau Arweiniad ar gyfer ymarferwyr cyllid myfyrwyr | Cyllid Myfyrwyr Cymru yn y bennod Asesu Cymhwysedd.

[21] Roedd Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn ar gael i'r rhai sy'n astudio mewn sefydliadau addysg bellach a'r Brifysgol Agored, ac roedd Cronfeydd Caledi ar gael i'r rhai sy'n astudio mewn SAU yn Lloegr, SAU yng Nghymru a sefydliadau addysg bellach yn Lloegr. Mae cronfeydd caledi yn gymorth y gall prifysgolion a cholegau ei ddarparu ar gyfer cymorth brys os yw myfyriwr mewn caledi ac angen cymorth ariannol ychwanegol. Efallai y bydd myfyrwyr yn cael cymorth ar gyfer costau cwrs neu gostau byw nad ydynt eisoes wedi'u cynnwys o fewn mathau eraill o gymorth ariannol, cymorth ar gyfer taliadau brys i dalu am argyfyngau ariannol annisgwyl neu gostau eithriadol fel costau atgyweirio offer hanfodol y cartref, a chymorth os ydynt yn ystyried rhoi'r gorau i'w cwrs oherwydd problemau ariannol ac angen cymorth ychwanegol i'w helpu i barhau i astudio. Gall myfyrwyr wneud cais yn uniongyrchol i'w prifysgol neu goleg, gall y swm a delir fod yn gyfandaliad neu’n randaliadau a gall fod yn fenthyciad y bydd yn rhaid i'r myfyriwr ei ad-dalu neu na fydd angen iddynt ei ad-dalu. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i golegau fel y gallant roi cymorth ychwanegol os yw myfyrwyr mewn caledi ac angen cymorth ychwanegol, gelwir y rhain yn Gronfeydd Ariannol Wrth Gefn.

3.12 Yr incwm canolrifol o Fenthyciadau Cynhaliaeth ar draws yr holl fyfyrwyr amser llawn oedd £6,000 o'i gymharu â chanolrif o £4,215 yn 2014 i 2015 (addaswyd ar gyfer chwyddiant), sef cynnydd o 42%.

3.13 Cymerodd 77% o fyfyrwyr amser llawn Fenthyciad Cynhaliaeth yn 2021 i 2022 (81% yn 2014 i 2015) a'r canolrif ymhlith y rhai a gymerodd y benthyciad oedd £8,000. Mae hyn yn gynnydd o 71% ar y canolrif o £4,687 (addaswyd) yn 2014 i 2015 ond mae hefyd yn cynrychioli mwy o ddyled i fyfyrwyr yn 2021 i 2022.

3.14 Yr incwm canolrifol o Grantiau Cynhaliaeth ar draws yr holl fyfyrwyr amser llawn oedd £1,000 o'i gymharu â chanolrif o £289 yn 2014 i 2015 (addaswyd), swm sydd wedi mwy na threblu.

3.15 Derbyniodd 66% o fyfyrwyr amser llawn Grant Cynhaliaeth yn 2021 i 2022 (i fyny o 51% yn 2014 i 2015) a'r canolrif ymhlith y rhai a dderbyniodd grant oedd £3,000. Mae hyn yn ostyngiad o 36% ar y canolrif o £4,669 (addaswyd ar gyfer chwyddiant) yn 2014 i 2015. Mae hyn yn dangos bod mwy o fyfyrwyr amser llawn o Gymru yn elwa o gymorth cynhaliaeth ar ffurf grantiau yn 2021 i 2022, o'i gymharu â 2014 i 2015, ond roedd y swm cyfartalog a dderbyniwyd yn llai.

3.16 Ychydig iawn o fyfyrwyr a dderbyniodd gymorth drwy Gronfeydd Caledi/Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn (cyllid ar gyfer cymorth brys os yw myfyriwr mewn caledi ac angen cymorth ariannol ychwanegol, mae'r rhain yn wahanol i fwrsariaethau prifysgol neu golegau neu ysgoloriaethau ac ni ddylid eu cymysgu â'r rheiny): derbyniodd 4% o fyfyrwyr amser llawn ganolrif o £500 (sef 3% yn 2014 i 2015) a dim ond 1% o fyfyrwyr rhan-amser (3% yn 2014 i 2015).

**Myfyrwyr rhan-amser**

3.17 Roedd prif ffynonellau cymorth i fyfyrwyr (ac eithrio incwm Benthyciadau Ffioedd Dysgu a Grant Ffioedd) yn elfennau incwm llai pwysig i'r mwyafrif o fyfyrwyr rhan-amser o'i gymharu â myfyrwyr amser llawn. Pan fydd incwm Benthyciad Ffioedd Dysgu a Grant Ffioedd yn cael ei ddileu o gyfrifiad cyfanswm incwm, roedd y prif ffynonellau cymorth i fyfyrwyr sy'n weddill yn cyfrif am 13% o gyfanswm incwm cymedrig yr oedd gan fyfyrwyr i'w wario yn 2021 i 2022 a 2% oedd hyn yn 2014 i 2015.

3.18 Rhwng y ddau arolwg, daeth myfyrwyr rhan-amser (sy'n astudio o leiaf 25% o'r cyfnod cyfwerth ag amser llawn) yn gymwys i gael Benthyciadau Cynhaliaeth.[22]

[22] Estynnwyd cymhwysedd i fyfyrwyr rhan-amser a oedd yn dechrau ar eu cwrs ar neu ar ôl 1 Awst 2018, ac a oedd yn astudio o leiaf 25% o gwrs amser llawn cyfatebol. Roedd yr holl fyfyrwyr rhan-amser yn y sampl yn

Roedd gan 39% o fyfyrwyr rhan-amser Fenthyciad Cynhaliaeth yn 2021 i 2022 a derbyniodd y rhai a oedd wedi cymryd Benthyciad Cynhaliaeth ganolrif o £3,000. Nid oedd myfyrwyr rhan-amser yn gymwys ar gyfer y benthyciadau hyn yn 2014 i 2015 felly nid yw cymhariaeth dros amser yn bosibl.

3.19 Roedd 51% o fyfyrwyr rhan-amser yn derbyn Grant Cynhaliaeth[23] yn 2021 i 2022, gan dderbyn £2,700 ar gyfartaledd. Nid oedd myfyrwyr rhan-amser yn gymwys i gael Grantiau Cynhaliaeth (neu Grant Dysgu Llywodraeth Cymru fel y'i gelwid bryd hynny) yn 2014 i 2015, ond roedd myfyrwyr parhaus yn 2014 i 2015 yn gymwys i gael Grant Cwrs. Yn 2014 i 2015, derbyniodd 27% o fyfyrwyr rhan-amser Grant Cwrs gyda chanolrif o £1,355 (addaswyd). Mae hyn yn dangos bod myfyrwyr rhan-amser wedi derbyn llawer mwy o gymorth ar gyfer costau byw yn 2021 i 2022 nag yn 2014 i 2015.

**Ffynonellau eraill cymorth cyllid i fyfyrwyr**

**Myfyrwyr amser llawn**

3.20 Roedd incwm o ffynonellau cymorth eraill wedi'u targedu yn cynnwys cymorth a ariennir gan y wladwriaeth gyda'r nod o gefnogi rhieni gyda gofal plant, gofalwyr gyda chostau gofal, myfyrwyr anabl gyda chostau eu hastudiaethau, a'r rhai sy'n astudio rhai cyrsiau sy'n gysylltiedig ag iechyd a rhai cyrsiau addysgu. Roedd hefyd yn cynnwys cefnogaeth gan ddarparwyr addysg uwch, cyflogwyr ac elusennau. Ar draws yr holl fyfyrwyr amser llawn, yn 2021 i 2022 cyfrannodd incwm o'r holl ffynonellau posibl eraill hyn 14% o gyfanswm incwm cymedrig (ac eithrio incwm Benthyciad Ffioedd Dysgu a Grant Ffioedd), i lawr o 17% yn 2014 i 2015.

3.21 Ni dderbyniodd y mwyafrif o fyfyrwyr amser llawn incwm o'r ffynonellau cyllid myfyrwyr eraill hyn, yn unol â natur dargededig y cronfeydd hyn. Yn 2021 i 2022, derbyniodd 45% o'r holl fyfyrwyr amser llawn rywfaint o incwm o'r ffynonellau eraill hyn (tebyg iawn i'r 46% yn 2014 i 2015). Y canolrif ar gyfer y rhai a dderbyniodd rywfaint o incwm o'r categori hwn oedd £2,000 yn 2021 i 2022 o'i gymharu â £2,254 (addaswyd) yn 2014 i 2015.

astudio o leiaf 25% o'r cyfnod cyfwerth ag amser llawn. Fodd bynnag, er mwyn cael ei ystyried yn gwrs rhan-amser, uchafswm yr oriau astudio oedd 75% o'r oriau ar gwrs amser llawn, mae hyn i bob pwrpas yn creu cap ar lefel y cymorth cynhaliaeth y gellir ei dderbyn.

[23] Roedd gan fyfyrwyr rhan-amser cymwys a ddechreuodd eu cyrsiau ar neu ar ôl 1 Awst 2018 hawl i gael cymorth cynhaliaeth trwy grant sylfaen pro-rata nad yw'n dibynnu ar brawf modd, grant cynhaliaeth sy'n dibynnu ar brawf modd a benthyciad cynhaliaeth. Roedd dysgwyr rhan-amser a dysgwyr o bell (sy'n astudio dwyster o 50% neu fwy) a ddechreuodd eu cyrsiau ar ôl 1 Medi ond cyn 1 Awst 2018 yn gymwys ar gyfer y Grant Cwrs sy'n dibynnu ar brawf modd.

3.22 O fewn y categori hwn o gymorth, y math mwyaf cyffredin a adroddwyd oedd cymorth gan brifysgol neu goleg y myfyrwyr. Yn 2021 i 2022, cafodd 21% o fyfyrwyr amser llawn gymorth (bwrsariaeth neu ysgoloriaeth) gan eu darparwr addysg uwch, i lawr o 24% yn 2014 i 2015. Y canolrif a dderbyniwyd yn 2021 i 2022 oedd £1,000, gostyngiad o'r canolrif o £1,297 (ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant) yn 2014 i 2015.

3.23 Derbyniodd 9% o fyfyrwyr amser llawn yn 2021 i 2022 a 2014 i 2015 gefnogaeth yn ymwneud â'r GIG. Yn 2021 i 2022, derbyniodd y grŵp hwn ganolrif o £10,364, gostyngiad o'r canolrif o £12,560 (addaswyd ar gyfer chwyddiant) yn 2014 i 2015.

3.24 Yn 2021 i 2022, cyfran y myfyrwyr amser llawn a dderbyniodd gymorth o'r Lwfans Myfyrwyr Anabl[24] oedd 8%, ac fe dderbynion nhw ganolrif o £1,483. Yn 2014 i 2015, cyfran y myfyrwyr a dderbyniodd gymorth oedd 5%, gyda swm canolrifol o £1,224 (addaswyd).[25]

3.25 Yn 2021 i 2022, derbyniodd 5% o fyfyrwyr amser llawn gymorth yn ymwneud â phlant, gan dderbyn canolrif o £1,821, mae hyn yn cymharu â 4% yn 2014 i 2015 gyda swm canolrifol o £2,019 (addaswyd).

**Myfyrwyr rhan-amser**

3.26 Yn 2021 i 2022, roedd ffynonellau cymorth myfyrwyr eraill (wedi'u targedu yn fwy) yn cyfrif am 8% o gyfanswm incwm cymedrig (ac eithrio incwm Benthyciad Ffioedd Dysgu a Grant Ffioedd Dysgu) ar draws y garfan gyfan o fyfyrwyr rhan-amser, yn debyg iawn i'r sefyllfa yn 2014 i 2015 lle'r oedd y ffynonellau hyn yn cyfrannu 9%. Yn wahanol i'r sefyllfa yn Lloegr, mae myfyrwyr rhan-amser yn gymwys i gael y cyfan neu'r rhan fwyaf o gynhyrchion y llywodraeth yn y categori hwn megis Grant Oedolion Dibynnol, Grant Gofal Plant, Lwfans neu Grant Dysgu i Rieni, a Lwfans Myfyrwyr Anabl[26]. Maent hefyd yn gymwys ar gyfer bwrsariaethau pwnc-benodol[27], bwrsariaethau ac ysgoloriaethau DAU, a chymorth cyflogwr.

3.27 Derbyniodd 37% o fyfyrwyr rhan-amser unrhyw incwm o'r ffynonellau cyllid myfyrwyr eraill (wedi'u targedu), o'i gymharu â 58% yn 2014 i 2015.[28] Ymhlith y rhai a dderbyniodd unrhyw incwm o'r ffynonellau eraill hyn (gyda'i gilydd), y swm canolrifol

[24] Mae Lwfans Myfyrwyr Anabl (DSA) yn grant i helpu myfyrwyr gyda'r costau ychwanegol y gallant eu wynebu wrth astudio mewn addysg uwch oherwydd anabledd.

[25] Yn 2021 i 2022 nododd 42% o fyfyrwyr amser llawn anabledd (hunanddatganedig) ac, o'r rhain, cafodd 19% fynediad at gymorth DSA. Yn 2014 i 2015 nododd 23% o fyfyrwyr amser llawn anabledd (hunanddatganedig) ac, o'r rhain, cafodd 17% fynediad at gymorth DSA.

[26] Fodd bynnag, mae myfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Loegr yn gymwys i gael Lwfans Myfyrwyr Anabl.

[27] Yn amodol ar fodloni amodau perthnasol sydd ynghlwm wrth bob ffynhonnell.

[28] Dylid nodi bod y Grant Ffioedd ar gyfer myfyrwyr rhan-amser yn 2014 i 2015 wedi'i gyfrifo fel rhan o ffynonellau eraill y pecyn cymorth i fyfyrwyr.

oedd £2,625, i fyny o £1,879 (addaswyd ar gyfer chwyddiant) yn 2014 i 2015, cynnydd o 40%.

3.28 O fewn ffynonellau eraill, y cymorth a adroddwyd amlaf oedd cymorth gan gyflogwr y myfyriwr. Yn 2021 i 2022, derbyniodd 24% o fyfyrwyr rhan-amser gymorth gan eu cyflogwyr, ychydig iawn o newid o’r 25% a adroddwyd yn 2014 i 2015. Y canolrif a dderbyniwyd yn 2021 i 2022 oedd £2,625, cynnydd o 57% o’r canolrif o £1,675 (addaswyd ar gyfer chwyddiant) yn 2014 i 2015.

3.29 Cyfran y myfyrwyr rhan-amser a dderbyniodd gymorth o'r Lwfans Myfyrwyr Anabl oedd 4% yn 2021 i 2022 (i lawr o 8% yn 2014 i 2015), ac fe dderbynion nhw ganolrif o £2,116.[29] Nid yw'n bosibl cymharu â'r canolrif a dderbyniwyd yn 2014 i 2015 gan fod y niferoedd yn rhy fach.[30]

3.30 Yn 2021 i 2022, derbyniodd 3% o fyfyrwyr rhan-amser gymorth yn ymwneud â phlant, gostyngiad o 12% yn 2014 i 2015, roedd y canolrif a dderbyniwyd yn £2,123, newid o £1,514 (addaswyd) yn 2014 i 2015.[31]

### Incwm o waith am dâl

#### Myfyrwyr amser llawn

3.31 Yn 2021 i 2022, ar draws yr holl fyfyrwyr amser llawn, cynyddodd incwm o waith am dâl a chyfrannodd yr enillion hyn fwy tuag at gyfanswm yr incwm. Yn 2021 i 2022 roedd enillion gwaith am dâl yn cyfrif am 20% o gyfanswm incwm cymedrig (ac eithrio incwm Benthyciad Ffioedd Dysgu) a dyma’r ail ffynhonnell incwm fwyaf ar gyfer myfyrwyr amser llawn, sef 17% yn 2014 i 2015. Yr enillion canolrifol ar gyfer y rhai mewn gwaith oedd £3,700 o'i gymharu â £2,692 (addaswyd) yn 2014 i 2015, mae hyn yn gynnydd o 37%.

3.32 Mae'r cynnydd hwn yn y cyfraniad cymedrig i incwm cyffredinol, ac mewn enillion canolrifol wedi cael ei ysgogi gan gynnydd yn y symiau a enillwyd gan y rhai mewn gwaith, yn hytrach na mwy o fyfyrwyr yn gweithio, neu fyfyrwyr yn gweithio mwy o oriau.

3.33 Mae cyfran y myfyrwyr amser llawn mewn gwaith am dâl ochr yn ochr â'u hastudiaethau wedi aros yn ddigyfnewid i raddau helaeth o 55% yn 2014 i 2015 i

[29] Dylid trin y ffigurau hyn yn ofalus oherwydd y nifer isel dan sylw (N=38)
[30] Yn 2021 i 2022 nododd 37% o fyfyrwyr rhan-amser anabledd (hunanddatganedig) ac, o'r rhain, cafodd 9% fynediad at gymorth DSA. Yn 2014 i 2015 nododd 30% o fyfyrwyr rhan-amser anabledd (hunanddatganedig) ac, o'r rhain, cafodd 29% fynediad at gymorth DSA.
[31] Dylid trin y ffigurau hyn yn ofalus oherwydd y nifer isel dan sylw (N=31 yn 2021 i 2022 a N=47 yn 2014 i 2015)

54% yn 2021 i 2022: roedd 32% yn gweithio mewn swyddi parhaus (hynny yw, gwaith sy'n parhau ar draws y flwyddyn academaidd lawn,[32] roedd hyn yn 34% yn 2014 i 2015) ac roedd gan 29% waith arall achlysurol am dâl (roedd hyn hefyd yn 29% yn 2014 i 2015). Ar gyfer gwaith parhaus a gwaith achlysurol, cynyddodd enillion canolrifol rhwng y ddau arolwg. Yr enillion canolrifol yn 2021 i 2022 i'r rhai â gwaith parhaus oedd £4,500 (i fyny o £3,671 (addaswyd) sef cynnydd o 23%) a'r enillion canolrifol o waith achlysurol oedd £1,731 (i fyny hyd yn oed yn uwch o £1,224 (addaswyd) sef cynnydd o 41%).

3.34 I'r rhai sy'n gweithio, roedd yr oriau cyfartalog (cymedrig) a weithiwyd ar adeg yr arolwg ar draws pob math o waith[33] yn 12 a'r canolrif oedd 8 yr wythnos. Yn 2014 i 2015, y ffigurau cyfatebol oedd cymedr o 11 a chanolrif o 8 awr.

3.35 Mae myfyrwyr yn aml yn gweithio patrymau gwahanol yn ystod y tymor o'u cymharu â chyfnodau gwyliau.[34] Roedd myfyrwyr amser llawn gyda swyddi parhaus yn tueddu i weithio oriau hirach yn ystod y gwyliau o'i gymharu â'r oriau yn ystod y tymor. Roeddent yn gweithio canolrif o 24 awr yr wythnos yn ystod y gwyliau (roedd hyn hefyd yn 24 awr yr wythnos yn 2014 i 2015) ac yn gweithio canolrif o 8 awr yr wythnos yn ystod y tymor (hefyd 8 awr yn 2014 i 2015). Roedd y myfyrwyr amser llawn hynny a oedd yn gweithio'r un faint o oriau'r wythnos yn ystod y tymor a gwyliau, yn gweithio canolrif o 16 awr yr wythnos ar gyfartaledd (roedd hyn yn 15 awr yn 2014 i 2015).

3.36 Roedd myfyrwyr amser llawn sy'n gweithio mewn swyddi achlysurol (22%) yn tueddu eto i weithio oriau gwahanol a hirach yn ystod gwyliau (canolrif o 12 awr yr wythnos, ac roedd hyn yn 20 awr yn 2014 i 2015) nag yn ystod y tymor (canolrif o 10 awr yr wythnos o'i gymharu ag 8 awr yr wythnos yn 2014 i 2015). Roedd myfyrwyr mewn swyddi achlysurol a nododd eu bod yn gweithio'r un oriau, p'un a oeddent yn ystod y tymor neu'n ystod y gwyliau, yn gweithio cyfartaledd (canolrif) o 16 awr (12 awr yn 2014 i 2015).

---

[32] Gofynnwyd i'r myfyrwyr faint o swyddi oedd ganddynt. Ar gyfer pob swydd, gofynnwyd i fyfyrwyr pryd y dechreuodd y swydd, pryd y disgwylir iddi ddod i ben, faint o oriau yr oeddent yn gweithio yn ystod y tymor a lle bo'n berthnasol, yn ystod y gwyliau, p'un a oeddent yn gweithio yr un oriau yn ystod y tymor a'r gwyliau, a faint y maent yn ennill. Gofynnwyd iddynt hefyd a oeddent yn disgwyl ennill unrhyw beth o swyddi yn y dyfodol yn ystod y flwyddyn academaidd. Cafodd swyddi a ddechreuodd cyn dechrau'r flwyddyn academaidd ac yr oedd disgwyl iddynt barhau hyd ddiwedd y flwyddyn academaidd eu categoreiddio fel swyddi parhaus. Cafodd swyddi nad oeddent yn cwmpasu'r flwyddyn academaidd gyfan eu categoreiddio fel swyddi achlysurol

[33] Gofynnwyd i fyfyrwyr a oedd mewn gwaith faint o oriau yr oeddent wedi gweithio yn ystod yr wythnos flaenorol

[34] Ar gyfer dadansoddi incwm o waith am dâl a phatrymau gwaith, mae cyfnod gwyliau'r haf wedi'i eithrio gan fod hyn y tu allan i 39 wythnos y flwyddyn academaidd (yn dilyn dull dadansoddi AIGM blaenorol). Mae enillion o wyliau'r haf yn cael eu dadansoddi ar wahân ac mae'r canlyniadau wedi'u cynnwys yn y set tablau.

**Myfyrwyr rhan–amser**

3.37 Ymhlith yr holl fyfyrwyr rhan-amser, roedd y gyfran fwyaf o incwm yn parhau i ddod o waith am dâl, gan gyfrif am 78% o gyfanswm incwm cyfartalog cymedrig (ac eithrio incwm Benthyciad Ffioedd Dysgu a Grant Ffioedd) yn 2021 i 2022, roedd hyn yn 79% yn 2014 i 2015. Yr enillion canolrifol ar gyfer y rhai mewn gwaith yn 2021 i 2022 oedd £17,100 o'i gymharu â £15,060 (addaswyd) yn 2014 i 2015, mae hyn yn gynnydd o 14%.

3.38 Mae cyfran y myfyrwyr rhan-amser mewn gwaith am dâl ochr yn ochr â'u hastudiaethau wedi aros yn ddigyfnewid o 75% yn 2014 i 2015 i 75% yn 2021 i 2022: roedd 66% yn gweithio mewn swyddi parhaus (roedd hyn yn 67% yn 2014 i 2015) ac roedd gan 16% waith arall mwy achlysurol am dâl (roedd hyn yn 14% yn 2014 i 2015). Ar gyfer gwaith parhaus a gwaith achlysurol, cynyddodd enillion canolrifol rhwng y ddau arolwg. Yr enillion canolrifol yn 2021 i 2022 i'r rhai â gwaith parhaus oedd £17,100 (i fyny o £15,688 (addaswyd) yn 2014 i 2015) a'r enillion canolrifol o waith achlysurol oedd £6,974 (i fyny'n uwch o £5,036 (addaswyd) yn 2014 i 2015).

3.39 Ar gyfer y myfyrwyr rhan-amser mewn gwaith, roedd yr oriau cymedrig a weithiwyd ar draws pob math o waith ar adeg yr arolwg[35] yn 2021 i 2022 yn 31.5 awr yr wythnos (roedd hyn yn 31 awr yr wythnos yn 2014 i 2015). Roedd y canolrif yn uwch ar 37 awr yr wythnos (roedd hyn yn 36 awr yn 2014 i 2015).

3.40 Ymhlith myfyrwyr rhan-amser gyda swyddi parhaus (66% o'r holl fyfyrwyr rhan-amser), roedd y mwyafrif yn gweithio'r un oriau yn ystod y tymor a'r gwyliau – 84% o'r rhai mewn swyddi parhaus neu 55% o'r holl fyfyrwyr rhan-amser. Roedd y grŵp hwn yn gweithio canolrif o 37 awr yr wythnos (roedd hyn hefyd yn 37 awr yn 2014 i 2015). Fodd bynnag, ar gyfer y rhai sy'n dweud eu bod yn gweithio oriau gwahanol (16% o'r rhai mewn swyddi parhaus neu 10% o'r holl fyfyrwyr rhan-amser), roedd yr oriau canolrifol a weithiwyd yn uwch yn ystod y tymor, ar 30 awr yr wythnos, nag yn ystod gwyliau, ar 19 awr yr wythnos (fodd bynnag, yn 2014 i 2015 roedd y patrwm i'r gwrthwyneb, gyda chyfartaledd canolrifol o 24 awr yr wythnos yn ystod y tymor a 40 awr yn ystod gwyliau).

3.41 Ychydig iawn o fyfyrwyr rhan-amser a nododd eu bod ond yn gweithio mewn swydd achlysurol (10% o'r holl fyfyrwyr rhan-amser) ac unwaith eto roeddent yn tueddu i

[35] Gofynnwyd i fyfyrwyr a oedd mewn gwaith faint o oriau yr oeddent wedi gweithio yn ystod yr wythnos flaenorol.

weithio'r un oriau yn ystod y tymor a gwyliau, canolrif o 37 awr (yn dilyn y patrwm a ganfuwyd ar gyfer gwaith parhaus yn 2021 i 2022). Oherwydd y nifer isel o fyfyrwyr rhan-amser sy'n adrodd eu bod yn gweithio mewn swyddi achlysurol yn unig yn arolwg 2014 i 2015, nid oes modd cymharu patrymau gwaith nac oriau gwaith.

**Incwm arall**

**Myfyrwyr amser llawn**

3.42 Gan barhau â'r duedd hirdymor a nodir yn y gyfres AIGM, gostyngodd y cyfraniad tuag at gyfanswm incwm cymedrig (ac eithrio incwm Benthyciad Ffioedd Dysgu a Grant Ffioedd) o gymorth ariannol gan deuluoedd ar draws yr holl fyfyrwyr amser llawn, o 15% yn 2014 i 2015 i 6% yn 2021 i 2022.

3.43 At ei gilydd, derbyniodd 76% o fyfyrwyr amser llawn (82% yn 2014 i 2015) incwm gan eu teuluoedd neu gyfrannu[36] incwm i'w teuluoedd. Mae cymorth gan deuluoedd yn cynnwys cyfraniadau gan rieni neu berthnasau eraill, rhoddion o arian gan bartner, a chyfran o incwm partner (a all fod yn negyddol lle mae myfyrwyr yn cyfrannu mwy nag y maent yn ei dderbyn yn y categorïau hyn). Derbyniodd 68% o fyfyrwyr amser llawn gyfraniadau gan rieni neu berthnasau eraill, a derbyniodd y grŵp hwn ganolrif o £600. Dim ond llond llaw o fyfyrwyr amser llawn a dderbyniodd unrhyw roddion o arian gan bartneriaid (felly nid oes modd dadansoddi ymhellach oherwydd y nifer isel o fyfyrwyr dan sylw). Rhannodd 12% o fyfyrwyr amser llawn beth incwm gyda'u partner a'r canolrif ar gyfer y grŵp hwn oedd -£2,966. Pan gyfunir y ffynonellau hyn, mae hyn yn lleihau'r canolrif ar gyfer y rhai sy'n derbyn cymorth gan eu teuluoedd neu'n cyfrannu at ganolrif o £550 o'i gymharu â £1,297 (addaswyd ar gyfer chwyddiant) yn 2014 i 2015. Mae hyn yn ostyngiad o 58% mewn termau real.

3.44 Roedd budd-daliadau (a chymorth ariannol cysylltiedig) fel Budd-dal Plant, Credyd Cynhwysol, Credyd Treth Plant, Taliad Annibyniaeth Personol, Budd-dal Treth y Cyngor neu Fudd-dal Tai yn cyfrif am gyfran fach iawn o gyfanswm incwm cymedrig yr holl fyfyrwyr amser llawn (ac eithrio incwm Benthyciad Ffioedd Dysgu a Grant Ffioedd), dim ond 3% o gyfanswm incwm cyffredinol yn 2021 i 2022. Roedd hyn yn 4% yn 2014 i 2015.

3.45 Yn 2021 i 2022, derbyniodd 14% o fyfyrwyr amser llawn incwm o fudd-daliadau (a chymorth ariannol cysylltiedig), a'r swm canolrifol a dderbyniwyd oedd £2,379. Yn

[36] Gall swm yr incwm gan y teulu fod yn bositif, sef bod y myfyriwr wedi derbyn incwm gan ei riant, partner neu berthnasau eraill ond gallai hefyd fod yn negyddol os yw wedi cyfrannu mwy at ei bartner nag a gafodd gan rieni neu berthnasau eraill.

2014 i 2015, derbyniodd 11% o fyfyrwyr amser llawn incwm o'r ffynonellau hyn, gan dderbyn canolrif o £4,047 (addaswyd ar gyfer chwyddiant), gostyngiad rhwng y ddau arolwg o 41%.

**Myfyrwyr rhan-amser**

3.46 Gall cymorth ariannol gan eu teulu leihau cyfanswm incwm myfyrwyr mewn gwirionedd os yw'r myfyriwr yn cyfrannu mwy at ei deulu nag y mae'n ei dderbyn gan ei deulu.[37] Ar draws yr holl fyfyrwyr rhan-amser, y cyfraniad tuag at gyfanswm incwm cymedrig (ac eithrio incwm Benthyciad Ffioedd Dysgu a Grant Ffioedd) gan y teulu oedd -8%, sy'n golygu ei fod wedi lleihau cyfanswm eu hincwm 8%. Yn 2014 i 2015 roedd yn -6%.

3.47 Yn 2021 i 2022, derbyniodd 75% o fyfyrwyr rhan-amser incwm gan eu teuluoedd neu gyfrannu incwm i'w teuluoedd, gyda chanolrif o -£5 (o'i gymharu â 71% a gwerth canolrifol o £324 yn 2014 i 2015 ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant).

3.48 Gan edrych yn fanylach ar gefnogaeth gan deuluoedd: derbyniodd 30% o fyfyrwyr rhan-amser gyfraniadau gan rieni neu berthnasau eraill, a derbyniodd y grŵp hwn ganolrif o £200; fel yn achos myfyrwyr amser llawn, dim ond llond llaw o fyfyrwyr rhan-amser a dderbyniodd unrhyw roddion o arian gan bartneriaid (felly nid oes modd dadansoddi ymhellach); a rhannodd 56% o fyfyrwyr rhan-amser beth incwm gyda'u partner a'r canolrif ar gyfer y grŵp hwn oedd -£3,454. Pan gyfunir y ffynonellau hyn, mae hyn yn lleihau'r canolrif ar gyfer y rhai sy'n derbyn cymorth gan eu teuluoedd neu'n cyfrannu atynt i -£5.

3.49 Roedd incwm o fudd-daliadau (a chymorth ariannol cysylltiedig) yn darparu cyfran gymharol uwch o gyfanswm incwm cymedrig i fyfyrwyr rhan-amser o'i gymharu â myfyrwyr amser llawn, gan gyfrif am 8% o gyfanswm incwm cymedrig (ac eithrio incwm Benthyciad Ffioedd Dysgu a Grant Ffioedd). Fodd bynnag, gostyngodd cyfraniad incwm budd-daliadau at incwm cyffredinol ymhlith myfyrwyr rhan-amser dros amser, oherwydd yn 2014 i 2015 roedd budd-daliadau yn cyfrif am 15% o gyfanswm incwm cymedrig (ac eithrio incwm Benthyciad Ffioedd Dysgu a Grant Ffioedd).

3.50 Yn 2021 i 2022, derbyniodd 40% o fyfyrwyr rhan-amser (sy'n sylweddol is na'r 53% yn 2014 i 2015) incwm o fudd-daliadau, gan dderbyn canolrif o £1,500 ar gyfartaledd (ar gyfer y flwyddyn academaidd), roedd hyn yn is na'r hyn ar gyfer myfyrwyr amser

[37] Gall swm yr incwm gan deulu fod yn bositif, oherwydd bod y myfyriwr yn derbyn incwm gan ei riant, partner neu berthnasau eraill, ond gall hefyd fod yn negyddol lle gwnaethant gyfrannu mwy nag a gawsant gan rieni neu berthnasau eraill.

llawn. Roedd hefyd yn ostyngiad o 44% o'r canolrif a dderbyniwyd yn 2014 i 2015 o £2,694.

**Cyfanswm incwm**

3.51 Cyfanswm yr incwm canolrifol ar draws yr holl fyfyrwyr amser llawn (ac eithrio dylanwad incwm Benthyciad Ffioedd Dysgu a Grant Ffioedd) ar gyfer blwyddyn academaidd 2021 i 2022 oedd £13,425 o'i gymharu â £12,267 (ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant) yn 2014 i 2015, sef cynnydd o 9% yng nghyfanswm yr incwm ar gyfer myfyrwyr amser llawn.

3.52 Cyfanswm yr incwm canolrifol ar draws yr holl fyfyrwyr rhan-amser oedd £17,490 (ac eithrio incwm Benthyciad Ffioedd Dysgu a Grant Ffioedd) ar gyfer blwyddyn academaidd 2021 i 2022, sef cynnydd o 12% ar werth canolrifol o £15,581 (addaswyd ar gyfer chwyddiant) yn 2014 i 2015.

3.53 Mae cymhariaeth o gyfanswm incwm canolrifol (ac eithrio incwm Benthyciad Ffioedd Dysgu a Grant Ffioedd) yn 2021 i 2022 rhwng myfyrwyr amser llawn a rhan-amser yn dangos bod gan fyfyrwyr rhan-amser 30% yn fwy o incwm ar gyfartaledd (gan ddefnyddio'r canolrif) na myfyrwyr amser llawn unwaith y bydd dylanwad Benthyciadau Ffioedd Dysgu a Grantiau Ffioedd yn cael ei ddileu (£13,425 i fyfyrwyr amser llawn a £17,490 i fyfyrwyr rhan-amser). Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu bod myfyrwyr rhan-amser yn 'well eu byd' na myfyrwyr amser llawn oherwydd gallant wynebu gwariant uwch. Mae'r gwahaniaeth wedi cynyddu ychydig o'r sefyllfa yn 2014 i 2015 pan oedd y cyfanswm canolrifol (ac eithrio incwm Benthyciad Ffioedd Dysgu a Grant Ffioedd) yn £12,267 i fyfyrwyr amser llawn a £15,581 i fyfyrwyr rhan-amser (addaswyd ar gyfer chwyddiant), gwahaniaeth o 27%.

## 4. Incwm (gan gynnwys Benthyciadau Ffioedd Dysgu)

4.1 Mae'r adran hon yn darparu'r symiau cyfartalog canolrifol ar gyfer cyfanswm incwm a phrif ffynonellau cymorth i fyfyrwyr, gan gynnwys incwm o Fenthyciadau Ffioedd Dysgu a gymerwyd ym mlwyddyn academaidd 2021 i 2022 (i dalu am ffioedd a oedd yn daladwy yn ystod y flwyddyn honno), a Grantiau Ffioedd ar gyfer nifer fach o fyfyrwyr parhaus.[38] Er efallai na fydd myfyrwyr yn derbyn ac yn gwario'r cyllid hwn yn gorfforol, mae ffioedd dysgu, Benthyciadau Ffioedd Dysgu a Grantiau Ffioedd wedi cael eu cyfrif a'u dadansoddi fel rhan o gyfanswm incwm myfyrwyr a

[38] Tynnwyd Grantiau Ffioedd yn ôl ar gyfer myfyrwyr newydd yn 2018 i 2019.

chyfanswm gwariant myfyrwyr ym mhob un o'r adroddiadau AIGM blaenorol. Mae'r adran hon felly'n galluogi cymariaethau ag adroddiadau AIGM blaenorol.

4.2 Mae pob myfyriwr yn gorfod talu costau ffioedd dysgu ond nid yw pob myfyriwr yn talu amdanynt yn gyfan gwbl neu'n rhannol gyda Benthyciadau Ffioedd Dysgu neu Grantiau Ffioedd, er enghraifft gall rhai myfyrwyr dalu am rywfaint neu ran o'u ffioedd trwy incwm a dderbynnir gan eu teuluoedd[39] neu gymorth gan eu cyflogwyr.[40] Os yw incwm o Fenthyciadau Ffioedd Dysgu (a Grantiau Ffioedd) wedi'i gynnwys o fewn cyfansymiau incwm, mae hyn yn golygu eu bod yn cael ystyriaeth gyfartal ochr yn ochr â dulliau eraill o dalu ffioedd, a all olygu trosglwyddiad o'r myfyriwr i'w Darparwr Addysg Uwch. Mae dealltwriaeth o lefel y ffioedd ac yn enwedig symiau Benthyciad Ffioedd Dysgu, a chyfran y myfyrwyr amser llawn a rhan-amser sy'n cymryd Benthyciad Ffioedd Dysgu, yn helpu i ddehongli canfyddiadau ynghylch dylanwad cyllid a ffioedd ar benderfyniadau AU (yr adroddir arnynt yn yr adran ganlynol).

**Prif ffynonellau cymorth i fyfyrwyr**

4.3 Y prif ffynonellau cymorth i fyfyrwyr yw elfennau canolog Cyllid Myfyrwyr Llywodraeth Cymru ac maent yn cynnwys: benthyciadau Ffioedd Dysgu ad-daladwy a Grantiau Ffioedd nad ydynt yn ad-daladwy (grantiau ar gyfer myfyrwyr parhaus a ddechreuodd cyn blwyddyn academaidd 2018 i 2019 yn unig); Benthyciadau Cynhaliaeth Ad-daladwy a Grantiau Cynhaliaeth nad ydynt yn ad-daladwy i gefnogi costau byw, a Chronfeydd Caledi/Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn (a elwir yn Gronfeydd Caledi yn Lloegr).

**Myfyrwyr amser llawn**

4.4 Y prif ffynonellau cymorth i fyfyrwyr (gan gynnwys incwm Benthyciad Ffioedd Dysgu a Grant Ffioedd) oedd rhan fwyaf incwm myfyrwyr amser llawn yn 2021 i 2022, gan gyfrif am 72%[41] o gyfanswm incwm cymedrig (roedd hyn yn 67% yn 2014 i 2015).

4.5 Mae'r prif ffynonellau hyn yn cynnwys cymorth ar gyfer ffioedd: y Benthyciad Ffioedd Dysgu (34% o gyfanswm incwm, roedd hyn yn 17% yn 2014 i 2015) a Grant

---

[39] Dywedodd 5% o fyfyrwyr amser llawn ac 1% o fyfyrwyr rhan-amser eu bod wedi derbyn cymorth gan eu rhieni i dalu ffioedd dysgu.

[40] Mae holiadur yr arolwg yn gofyn i fyfyrwyr faint mae eu darparwr addysg uwch yn ei godi am eu cwrs, ac a ydynt wedi cymryd neu'n disgwyl cymryd Benthyciad Ffioedd Dysgu i dalu peth neu'r cyfan o gostau eu ffioedd dysgu ar gyfer blwyddyn academaidd 2021 i 2022 a'r swm a gymerwyd allan. Lle mae'r ffioedd yn uwch na swm y Benthyciad Ffioedd Dysgu a roddwyd (gall swm y benthyciad fod yn sero), gofynnir i fyfyrwyr pwy arall sy'n cyfrannu at gostau eu ffioedd yn 2021 i 2022. Gall hyn gynnwys rhieni neu lys-rieni, priod neu bartner, perthynas arall, cyflogwr, eu darparwr addysg uwch, y GIG (bwrsariaeth GIG), neu eraill fel elusen. Mae'r symiau hyn wedi'u cynnwys yng nghyfrifiad incwm myfyrwyr hyd yn oed pan fydd Benthyciadau Ffioedd Dysgu wedi'u heithrio.

[41] Fel y nodwyd uchod, wrth gyfrifo'r cyfraniad cyfartalog y mae pob math o incwm yn ei wneud i gyfanswm yr incwm, defnyddir y cymedr yn hytrach na'r canolrifau, gan fod swm y cymedr ar gyfer pob math o incwm yn hafal i gyfanswm yr incwm cymedrig.

Ffioedd Llywodraeth Cymru (llai na 0.5%, ond roedd hyn yn 20% yn 2014 i 2015). Mae hyn yn adlewyrchu cyfeiriad y polisi sy'n symud tuag at fenthyciadau i gynorthwyo gyda chostau ffioedd, gyda grantiau'n cael eu hailffocysu i gynorthwyo gyda chostau byw. Gyda'i gilydd, roedd y cymorth yn gysylltiedig â ffioedd yn cyfrif am 34% o gyfanswm incwm cyfartalog, roedd hyn yn 37% yn 2014 i 2015.

4.6 Mae'r prif ffynonellau hefyd yn cynnwys cymorth ar gyfer costau byw drwy'r Benthyciad Cynhaliaeth (26% o gyfanswm incwm, 19% yn 2014 i 2015) a'r Grant Cynhaliaeth (a elwid gynt yn Grant Dysgu Llywodraeth Cymru, 12% o gyfanswm yr incwm yn 2021 i 2022, 11% o gyfanswm yr incwm yn 2014 i 2015) a Chronfeydd Caledi/Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn.

4.7 Yr incwm canolrifol o'r prif ffynonellau cymorth i fyfyrwyr hyn ar y cyd (gan gynnwys Benthyciadau Ffioedd Dysgu a Grantiau Ffïoedd) ar draws yr holl fyfyrwyr amser llawn oedd £17,790 yn 2021 i 2022 o'i gymharu â £13,624 (uwchraddiwyd)[42] yn 2014 i 2015, cynnydd o 31%.

4.8 Ymhlith myfyrwyr amser llawn yn 2021 i 2022, cymerodd 86% Fenthyciad Ffioedd Dysgu (85% yn 2014 i 2015), gan dderbyn swm canolrifol o £9,000.[43] Y canolrif a dderbyniwyd mewn Benthyciadau Ffioedd Dysgu yn 2014 i 2015 oedd £3,716.[44] Eglurir y gwahaniaeth gan wahaniaeth mewn polisi: yn 2014 i 2015, i gynorthwyo gyda chostau ffioedd, gallai myfyrwyr gael mynediad at gyfuniad o fenthyciad a grant, ond yn 2021 i 2022 roedd cymorth grant yn canolbwyntio ar gostau byw gyda chymorth i dalu costau ffioedd yn dod trwy fenthyciadau.

4.9 Yn 2021 i 2022, cymerodd 72% o fyfyrwyr amser llawn fenthyciad llawn i dalu eu ffioedd,[45] a chymerodd 14% fenthyciad rhannol. Yn 2014 i 2015, cymerodd 46% o fyfyrwyr amser llawn fenthyciad llawn (roedd hyn yn £3,685 ar y pryd) a chymerodd 39% fenthyciad rhannol.[46] Y swm canolrifol a gymerwyd yn 2021 i 2022 gan fyfyrwyr

---

[42] Cyfrifwyd ffigur codiad wedi'i bwysoli i gyfrif am y cynnydd real yn y Benthyciad Ffioedd Dysgu.

[43] Dyma'r uchafswm y gallai darparwr AU ei godi bob blwyddyn am gwrs israddedig amser llawn hyd safonol yn 2021 i 2022.

[44] Nid oedd unrhyw gynnydd yn y Benthyciad Ffioedd Dysgu rhwng y blynyddoedd 2014 i 2015 a 2021 i 2022 ar gyfer myfyrwyr o Gymru sy'n astudio mewn sefydliadau yng Nghymru, felly defnyddiwyd codiad wedi'i bwysoli i gyfrif am y gyfran fach o fyfyrwyr o Gymru sy'n astudio mewn sefydliadau yn Lloegr lle cynyddodd y cap ffioedd dysgu 2.8% dros y cyfnod.

[45] Cyfrifwyd y gyfran hon o'r is-set o ymatebwyr a atebodd y set lawn o gwestiynau ynghylch y benthyciad ffioedd ac mae'n eithrio'r rhai y cyfrifwyd swm y benthyciad ffioedd ar eu cyfer oherwydd data coll ar o leiaf un o'r setiau cwestiynau perthnasol.

[46] Cyfrifwyd y gyfran hon o'r is-set o ymatebwyr a atebodd y set lawn o gwestiynau ynghylch y benthyciad ffioedd ac mae'n eithrio'r rhai y cyfrifwyd swm y benthyciad ffioedd ar eu cyfer oherwydd data coll ar o leiaf un o'r setiau cwestiynau perthnasol.

amser llawn gyda benthyciad rhannol oedd £4,000 (roedd hyn yn £3,025 yn 2014 i 2015 ac felly mae'n cynrychioli cynnydd o 32%).

4.10 Yn 2014 i 2015, derbyniodd 83% o fyfyrwyr amser llawn Grant Ffioedd Llywodraeth Cymru Grant a swm canolrifol y grant oedd £4,033. Yn 2021 i 2022 dim ond ychydig o fyfyrwyr parhaus a oedd yn dal i fod yn gymwys ar gyfer y grant, a dim ond 1% a dderbyniodd grant.[47]

**Myfyrwyr rhan–amser**

4.11 Yn 2021 i 2022, roedd prif ffynonellau cymorth i fyfyrwyr (gan gynnwys Benthyciadau Ffioedd Dysgu) yn cyfrif am 18% o gyfanswm incwm cymedrig, i fyny o 7% yn 2014 i 2015.

4.12 Yr incwm canolrifol ar draws yr holl fyfyrwyr rhan-amser o’r prif ffynonellau cymorth i fyfyrwyr ar y cyd oedd £3,000 (pan gynhwysir incwm Benthyciad Ffioedd Dysgu) yn 2021 i 2022 o'i gymharu â £819 (addaswyd)[48] yn 2014 i 2015, sef bron i bedair gwaith yn uwch.

4.13 Roedd cynnydd sylweddol yn y niferoedd sy'n manteisio ar Fenthyciadau Ffioedd Dysgu ymhlith myfyrwyr rhan-amser rhwng y ddau arolwg; cymerodd 58% Fenthyciad Ffioedd Dysgu yn 2021 i 2022 gan dderbyn canolrif o £1,500, o'i gymharu â 41% yn 2014 i 2015 yn derbyn canolrif o £1,200 ar ôl ei addasu, cynnydd o 25% yn y swm a dderbyniwyd mewn benthyciad ffioedd yn y flwyddyn.[49] Mae'r newid yn cael ei esbonio’n bennaf gan yr estyniad diweddar o gymhwysedd ar gyfer Benthyciadau Ffioedd Dysgu i fyfyrwyr rhan-amser newydd o 2014 i 2015 ar adeg arolwg 2014 i 2015.

**Cyfanswm incwm**

4.14 Cyfanswm yr incwm canolrifol yn 2021 i 2022 ar gyfer myfyrwyr amser llawn oedd £20,717. Mae hyn yn cynnwys canolrif ar draws pob myfyriwr o £9,000 ar gyfer incwm Benthyciad Ffioedd Dysgu ar gyfer blwyddyn academaidd 2021 i 2022, y mae myfyrwyr, fel y nodwyd uchod, yn ei dderbyn ond sy'n mynd yn syth at eu

---

[47] Ni ellir rhoi'r swm canolrifol a dderbyniwyd oherwydd y nifer isel o achosion (N=23).
[48] Cyfrifwyd ffigur codiad wedi’i bwysoli i gyfrif am y cynnydd real yn y Benthyciad Ffioedd Dysgu i fyfyrwyr o Gymru yn astudio yn Lloegr.
[49] Cyfrifwyd ffigur codiad wedi’i bwysoli i gyfrif am y cynnydd real yn y Benthyciad Ffioedd Dysgu i fyfyrwyr o Gymru yn astudio yn Lloegr.

darparwr. Mae hyn yn gynnydd o 10% o'r canolrif yn 2014 i 2015 o £18,842 (addaswyd).[50]

4.15 Cyfanswm yr incwm canolrifol ar draws yr holl fyfyrwyr rhan-amser oedd £18,350, sy'n cynnwys canolrif ar draws pob myfyriwr o £1,050 ar gyfer incwm Benthyciad Ffioedd Dysgu ar gyfer blwyddyn academaidd 2021 i 2022. Mae hyn yn gynnydd o 13% o'r canolrif o £16,188 (addaswyd)[51] yn 2014 i 2015.

4.16 At ei gilydd, roedd cyfanswm yr incwm canolrifol yn 2021 i 2022 ar gyfer myfyrwyr amser llawn yn uwch nag ar gyfer myfyrwyr rhan-amser (yn dilyn patrymau a ganfuwyd yn 2014 i 2015), ac fel y dangosir uchod, mae cyfansoddiad y cyfansymiau hyn (a dibyniaeth ar fathau penodol o gymorth ariannol) yn amrywio'n sylweddol.

## 5. Dylanwadau cyllid ar benderfyniadau a phrofiadau AU

5.1 Mae'r adran hon yn edrych ar ddylanwadau cyllid ar benderfyniadau a phrofiadau AU myfyrwyr Cymru. Gofynnwyd i bob myfyriwr feddwl yn ôl i'r amser pan oeddent yn gwneud cais i'r brifysgol neu'r coleg, ac a oedd y cyllid myfyrwyr a'r cymorth ariannol oedd ar gael iddynt a chostau ffioedd ar y pryd wedi effeithio ar eu penderfyniadau mewn perthynas ag astudiaethau Addysg Uwch. I'r rhai a ddywedodd ei fod wedi dylanwadu ar eu penderfyniadau, gofynnwyd iddynt wedyn am y ffyrdd yr effeithiwyd ar eu penderfyniadau. Gofynnwyd hefyd i bob myfyriwr a oeddent wedi wynebu anawsterau ariannol yn ystod eu cwrs presennol; ac, i'r rhai sy'n wynebu anawsterau, i ba raddau yr effeithiodd yr anawsterau hyn ar ba mor dda yr oeddent yn ei wneud yn eu hastudiaethau AU, a sut y cawsant eu heffeithio.

5.2 Cafodd 41% o'r holl fyfyrwyr amser llawn a 45% o'r holl fyfyrwyr rhan-amser eu dylanwadu gan argaeledd cyllid a chymorth ariannol sydd ar gael iddynt wrth wneud penderfyniadau ynghylch Addysg Uwch (gostyngiad bach o'r ffigurau yn 2014 i 2015, sef 42% o'r myfyrwyr amser llawn a 51% o'r myfyrwyr rhan-amser). Ar gyfer y grŵp hwn, o'r ffyrdd y gallai eu penderfyniadau fod wedi cael eu heffeithio, roeddent yn adrodd yn fwyaf cyffredin na fyddent wedi astudio heb gyllid (felly roedd argaeledd cyllid a chymorth ariannol yn effeithio ar ystyriaethau ynghylch a ddylid astudio ai peidio). Ar draws yr holl fyfyrwyr, dywedodd 26% o'r holl fyfyrwyr amser llawn a 30%

[50] Cyfrifwyd ffigur codiad wedi'i bwysoli i gyfrif am y cynnydd real yn y Benthyciad Ffioedd Dysgu i fyfyrwyr o Gymru yn astudio yn Lloegr.
[51] Cyfrifwyd ffigur codiad wedi'i bwysoli i gyfrif am y cynnydd real yn y Benthyciad Ffioedd Dysgu i fyfyrwyr o Gymru yn astudio yn Lloegr.

o'r holl fyfyrwyr rhan-amser na fyddent wedi astudio o gwbl heb y cyllid (26% a 38%, yn y drefn honno, yn 2014 i 2015). Ar gyfer myfyrwyr amser llawn, roedd myfyrwyr hŷn (yn enwedig rhai 25 oed a throsodd[52]), myfyrwyr â phlant (yn enwedig myfyrwyr a oedd yn rhiant sengl[53]) a'r rhai sy'n cael eu hystyried yn fyfyrwyr annibynnol[54] yn llawer mwy tebygol o adrodd na fyddent wedi astudio o gwbl heb y cyllid.[55] Roedd gwahaniaethau hefyd ymhlith myfyrwyr rhan-amser, ond nid oedd yr un o'r rhain yn ystadegol arwyddocaol.

5.3 Roedd agweddau eraill a ddylanwadwyd gan argaeledd cyllid a chymorth ariannol yn cynnwys penderfynu astudio mewn prifysgol gyfagos fel y gallwn fyw gyda fy nheulu yn hytrach na mynd i brifysgol wahanol lle byddai'n rhaid i mi fyw'n annibynnol. Roedd hyn yn llawer mwy tebygol ymhlith myfyrwyr amser llawn na myfyrwyr rhan-amser: dywedodd 32% o fyfyrwyr amser llawn a oedd yn teimlo bod y cyllid a'r cymorth i fyfyrwyr oedd ar gael iddynt yn effeithio ar eu penderfyniadau ynghylch astudio ei fod wedi dylanwadu arnynt i astudio mewn prifysgol gyfagos (tua 13% o'r holl fyfyrwyr amser llawn). Y ffigurau cyfatebol ar gyfer myfyrwyr rhan-amser oedd 8% o'r rhai yr effeithiwyd arnynt gan gyllid a chymorth ariannol, tua 4% o'r holl fyfyrwyr rhan-amser.

5.4 Roedd llai o fyfyrwyr yn 2021 i 2022 yn teimlo bod cost ffioedd wedi dylanwadu ar eu penderfyniadau AU (21% o fyfyrwyr amser llawn a 30% o fyfyrwyr rhan-amser) yn hytrach nag argaeledd cyllid (41% o fyfyrwyr amser llawn a 45% o fyfyrwyr rhan-amser). Roedd hyn hefyd yn wir yn 2014 i 2015, gyda 19% o fyfyrwyr amser llawn yn teimlo eu bod wedi cael eu dylanwadu gan gost ffioedd a 33% o fyfyrwyr rhan-amser.

5.5 Dywedodd rhwng un hanner a dau o bob pump o'r holl fyfyrwyr eu bod wedi wynebu anawsterau ariannol yn ystod eu cwrs presennol (45% o fyfyrwyr amser llawn a 40% o fyfyrwyr rhan-amser).[56] At ei gilydd, roedd 12% o'r holl fyfyrwyr amser llawn

[52] Y grwpiau oedran a brofwyd oedd: o dan 20, 20 i 24, a 25+, $p<0.01$.
[53] Y grwpiau a brofwyd oedd: teulu dau oedolyn, teulu un oedolyn, yn briod neu'n byw mewn pâr a sengl, $p<0.05$
[54] $p<0.01$
[55] Roedd gan y cwestiwn ddwy ran. 1) 'A wnaeth y cyllid a'r cymorth i fyfyrwyr oedd ar gael i chi effeithio ar eich penderfyniadau ynghylch astudio mewn unrhyw ffordd?' Gofynnwyd hyn i'r holl fyfyrwyr. 1) 'Ym mha ffyrdd wnaeth y cyllid a'r cymorth oedd ar gael i chi effeithio ar eich penderfyniadau ynghylch astudio'? Gofynnwyd hyn yn unig i'r rhai a atebodd 'do' i'r cwestiwn blaenorol. Rhoddwyd rhestr i'r is-grŵp hwn o ffyrdd y gellid effeithio ar eu penderfyniadau, a gallent ddewis cymaint ag oedd yn briodol. Un o'r eitemau hyn oedd 'Ni fyddwn wedi astudio heb gyllid'. Deilliwyd newidyn deuol ar gyfer y sampl gyfan, gan gyfuno'r ddau ateb i nodi'r rhai a ddywedodd na fyddent wedi astudio heb gyllid a'r holl fyfyrwyr eraill. Roedd y myfyrwyr eraill yn cynnwys y rhai a adroddodd nad oedd eu penderfyniadau astudio wedi cael eu heffeithio mewn unrhyw ffordd a'r rhai a adroddodd bod eu penderfyniadau astudio wedi cael eu heffeithio mewn ffyrdd eraill. Cynhaliwyd prawf chi-sgwâr gan ddefnyddio'r newidyn deilliadol hwn.
[56] Ni ofynnwyd y cwestiwn hwn yn arolwg 2014 i 2015, felly ni ellir gwneud cymariaethau.

ac 8% o'r holl fyfyrwyr rhan-amser yn teimlo eu bod wedi wynebu anawsterau ariannol a oedd wedi effeithio ar ba mor dda yr oeddent yn gwneud yn y brifysgol i raddau helaeth. (17% o fyfyrwyr amser llawn ac 16% o fyfyrwyr rhan-amser wedi'u heffeithio cryn dipyn, a 15% o fyfyrwyr amser llawn a 12% o fyfyrwyr rhan-amser wedi'u heffeithio ychydig).[57] Dywedwyd mai effeithiau mwyaf cyffredin anawsterau ariannol oedd pryder a straen ac yna gorfod ymgymryd â gwaith am dâl ochr yn ochr â'u hastudiaethau, ac, i fyfyrwyr amser llawn, anawsterau o ran talu am weithgareddau cymdeithasol a chlybiau.[58]

[57] Yr ymatebion posibl oedd, llawer iawn, cryn dipyn, ychydig, dim o gwbl.
[58] Gofynnwyd y cwestiwn hwn yn unig i'w rhai a ddywedodd eu bod yn wynebu anawsterau ariannol yn ystod eu cwrs a bod yr anawsterau hyn wedi effeithio ar ba mor dda yr oeddent yn gwneud yn eu prifysgol neu goleg. Cawsant restr o eitemau y gallent ddewis ohonynt a gallent ddewis sawl opsiwn. Yr eitemau oedd: achosi pryder a straen; anawsterau prynu llyfrau, deunyddiau ac offer eraill ar gyfer eich cwrs; anawsterau talu am weithgareddau cymdeithasol; ei bod yn angenrheidiol gweithio mewn swydd â thâl; gorfod gweithio oriau ychwanegol mewn swydd â thâl; methu talu costau teithio i brifysgol neu goleg ac oddi yno; methu â chymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r cwrs fel teithiau maes; problemau iechyd; arall.

# 6. Cymariaethau incwm â Lloegr

6.1 Wrth wneud cymariaethau rhwng myfyrwyr sy'n hanu o Gymru a myfyrwyr sy'n hanu o Loegr, mae'n bwysig nodi bod rhai gwahaniaethau allweddol[59] yn y dulliau cyllido yn 2021 i 2022.

6.2 Yr uchafswm ffioedd dysgu (ac felly swm y Benthyciad Ffioedd Dysgu) ar gyfer cwrs amser llawn ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn sefydliadau Cymru yn 2021 i 2022 oedd £9,000 ond roedd yn £9,250 i fyfyrwyr sy'n hanu o Loegr neu fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n astudio mewn sefydliadau yn Lloegr.

6.3 Gallai myfyrwyr sy'n hanu o Gymru dderbyn Grant Cynhaliaeth neu Grant Cymorth Arbennig (ac felly Benthyciad Cynhaliaeth llai) ond nid oedd grant o'r fath ar gael i fyfyrwyr sy'n hanu o Loegr.

6.4 Gallai myfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Gymru fod yn gymwys ar gyfer Grantiau Gofal Plant, Lwfans Dysgu i Rieni a Grantiau Oedolion Dibynnol, nid oedd y rhain ar gael i fyfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Loegr.

6.5 Mae'r cyfraddau benthyciad uchaf (benthyciadau cynhaliaeth a ffioedd) a chyfraddau ar gyfer mathau eraill o gymorth wedi'u targedu yn debygol o fod yn wahanol i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru a myfyrwyr sy'n hanu o Loegr.

### Myfyrwyr amser llawn

6.6 Ymhlith myfyrwyr amser llawn, roedd cyfanswm lefelau incwm yn uwch ar gyfartaledd i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru na myfyrwyr sy'n hanu o Loegr ar ôl dileu dylanwad Benthyciadau Ffioedd Dysgu a Grantiau Ffioedd (£13,425 a £11,500 yn y drefn honno). Roedd gwahaniaethau hefyd yn y ffynonellau incwm rhwng y ddwy garfan, yn enwedig yn y ddibyniaeth ar brif ffynonellau cyllid myfyrwyr a chymorth gan deuluoedd.

6.7 Roedd cymorth ariannol gan brif ffynonellau (Benthyciadau Cynhaliaeth a Grantiau Cynhaliaeth) cymorth i fyfyrwyr yn uwch i fyfyrwyr amser llawn o Gymru na myfyrwyr o Loegr. Gyda'i gilydd, cyfrannodd y ffynonellau hyn 55% at gyfanswm yr incwm cymedrig o'i gymharu â 43% ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Loegr (ac eithrio incwm o Fenthyciad Ffioedd Dysgu a Grant Ffioedd). Ar draws pob myfyriwr, roedd

[59] Mae'r gwahaniaethau eraill yn 2021 i 2022 yn cynnwys: Gallai myfyrwyr amser llawn sy'n hanu o Gymru a ddechreuodd eu cyrsiau cyn 1 Medi 2018 dderbyn Grant Ffioedd (ac felly Benthyciad Ffioedd Dysgu llai) ond nid oedd unrhyw grantiau ar gael i fyfyrwyr sy'n hanu o Loegr; gallai myfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Gymru a ddechreuodd eu cyrsiau cyn 1 Medi 2018 gael Grant Cwrs, nid oedd hwn ar gael i fyfyrwyr sy'n hanu o Loegr; ac roedd ystod ehangach o gyrsiau yn gymwys i gael cyllid y GIG ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru.

y swm canolrifol ar gyfer y prif ffynonellau yn sylweddol uwch, sef £9,000 i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru o'i gymharu â £5,981 ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Loegr. Yn allweddol i'r prif ffynonellau cymorth i fyfyrwyr hyn mae Benthyciadau Cynhaliaeth, ac, ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn unig, Grantiau Cynhaliaeth. Roedd cyfrannau'r myfyrwyr a gymerodd Fenthyciad Cynhaliaeth yn 2021 i 2022 yn debyg, gyda 77% o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn gwneud hynny ac yn derbyn canolrif o £8,000 a 79% o fyfyrwyr sy’n hanu o Loegr gyda chanolrif ychydig yn is o £7,100. Gallai myfyrwyr sy'n hanu o Gymru hefyd dderbyn Grant Cynhaliaeth, gwnaeth 66% hynny a derbyn £3,000 ar gyfartaledd (canolrif). Nid oedd grantiau o'r fath ar gael yn 2021 i 2022 i fyfyrwyr sy'n hanu o Loegr.

6.8 I'r gwrthwyneb roedd cymorth ariannol gan deuluoedd (yn cynnwys cyfuniad o arian a dderbyniwyd gan deuluoedd ac o bosibl arian a roddwyd i bartneriaid lle'r oedd myfyrwyr yn rhannu cyfrifoldeb ariannol) yn llai i fyfyrwyr amser llawn sy’n hanu o Gymru o’i gymharu â myfyrwyr sy'n hanu o Loegr. Roedd myfyrwyr amser llawn sy’n hanu o Gymru ychydig yn fwy tebygol o roi arian i'w teulu na myfyrwyr amser llawn sy’n hanu o Loegr (8% o'i gymharu â 7%) ac ychydig yn llai tebygol o dderbyn arian gan eu teulu (68% o'i gymharu â 71%). Roedd y swm a dderbyniwyd gan fyfyrwyr amser llawn sy’n hanu o Gymru gan eu teuluoedd (gan edrych ar y rhai a dderbyniodd swm positif net yn hytrach na'r rhai a gyfrannodd arian at eu teuluoedd neu bartneriaid) yn llawer is ar gyfartaledd na'r swm a dderbyniwyd gan fyfyrwyr amser llawn sy’n hanu o Loegr (swm canolrifol y derbyniad yn £700 o'i gymharu â £1,600). Cyfrannodd cymorth gan deuluoedd (rhieni, partneriaid a'r teulu ehangach) 6% o gyfanswm incwm cymedrig myfyrwyr o Gymru (ac eithrio incwm o Fenthyciad Ffioedd Dysgu a Grant Ffioedd) tra bod cymorth gan deuluoedd yn cyfrif am 15% o gyfanswm incwm cymedrig myfyrwyr sy’n hanu o Loegr. Roedd tua thri chwarter y myfyrwyr sy’n hanu o Gymru a myfyrwyr sy’n hanu o Loegr wedi derbyn incwm gan eu teuluoedd neu wedi cyfrannu incwm at eu teuluoedd (76% a 78% yn y drefn honno), ond ymhlith y derbynyddion hyn, derbyniodd myfyrwyr sy'n hanu o Gymru gryn dipyn yn llai ar gyfartaledd, sef canolrif o £550 o'i gymharu â £1,160 ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Loegr.

**Myfyrwyr rhan-amser**

6.9 Cyfanswm yr incwm canolrifol (ac eithrio incwm Benthyciad Ffioedd Dysgu a Grant Ffioedd) ymhlith myfyrwyr rhan-amser sy’n hanu o Gymru yn 2021 i 2022 oedd £17,490. Yn dilyn patrymau a ganfuwyd ar gyfer myfyrwyr amser llawn, roedd hyn yn uwch na'r hyn a ganfuwyd ar gyfer myfyrwyr rhan-amser sy’n hanu o Loegr lle'r

oedd y canolrif yn £16,460. Yn dilyn y patrwm a ganfuwyd ymhlith myfyrwyr sy'n hanu o Loegr, roedd gan fyfyrwyr rhan-amser o Gymru incwm cyfartalog uwch (canolrif) na myfyrwyr amser llawn sy'n hanu o Gymru ond roedd y gwahaniaeth yn gulach na'r hyn a ganfuwyd ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Loegr (gwahaniaeth o 30% o'i gymharu â gwahaniaeth ymhlith myfyrwyr sy'n hanu o Loegr o 43%). Fel y nodwyd yn gynharach, nid yw cyfanswm incwm cyfartalog uwch yn golygu bod y myfyrwyr hyn 'yn well eu byd' gan y gallent wynebu gwariant uwch.

6.10 Yn debyg i ganfyddiadau ar gyfer myfyrwyr amser llawn, roedd incwm o'r prif ffynonellau cymorth i fyfyrwyr yn uwch ymhlith myfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Gymru na myfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Loegr. Ar draws yr holl fyfyrwyr rhan-amser, cyfrannodd y rhain 13% o gyfanswm incwm cymedrig myfyrwyr sy'n hanu o Gymru o gymharu â 3% o fyfyrwyr sy'n hanu o Loegr (gan eithrio incwm Benthyciad Ffioedd Dysgu a Grant Ffioedd o gyfanswm yr incwm). Mae hyn yn bennaf oherwydd bod llawer mwy o fyfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Gymru yn cymryd Benthyciadau Cynhaliaeth (er gwaetha'r ffaith fod myfyrwyr rhan-amser o Loegr yn cymryd swm uwch mewn gwirionedd), ynghyd ag argaeledd y Grant Cynhaliaeth ar gyfer myfyrwyr rhan-amser (nid oedd grant o'r fath ar gael i fyfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Loegr). Roedd 39% o fyfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Gymru yn manteisio ar Fenthyciadau Cynhaliaeth, gyda swm canolrifol o £3,000, o'i gymharu â 10% 0 fyfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Loegr a dderbyniodd swm canolrifol o £4,744. Roedd y Grant Cynhaliaeth yn fwy cyffredin na'r Benthyciad Cynhaliaeth ymhlith myfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Gymru, gyda 51% yn derbyn grant gyda chanolrif o £2,700 wedi'i dderbyn.

6.11 Unwaith eto, fel y nodwyd ar gyfer myfyrwyr amser llawn, roedd cymorth ariannol gan deuluoedd (yn cynnwys cyfuniad o arian a dderbyniwyd gan deuluoedd ac o bosibl arian a roddwyd i bartneriaid) yn llai i fyfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Gymru o'i gymharu â myfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Loegr. Roedd myfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Gymru yn llawer mwy tebygol o roi arian i'w teuluoedd, 38% o'i gymharu â 25% o fyfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Loegr. I'r gwrthwyneb, roedd myfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Loegr yn fwy tebygol o dderbyn arian gan eu teuluoedd, 47% o'i gymharu â 38% o fyfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Gymru. O'r rhai a dderbyniodd arian gan eu teulu (h.y. gan eithrio'r rhai a roddodd fwy nag a gawsant), derbyniodd myfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Gymru lai ar gyfartaledd, sef canolrif o £1,400, o'i gymharu â £1,900 ar gyfer myfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Loegr. Mae hyn yn arwain at ganfod, ar draws y garfan gyfan o fyfyrwyr rhan-

amser sy’n hanu o Gymru, fod teuluoedd yn lleihau cyfanswm incwm cymedrig (o 8%) yn hytrach nag ychwanegu at eu hincwm cyffredinol ond nad oeddent yn gwneud unrhyw wahaniaeth i gyfanswm incwm cymedrig myfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Loegr (wedi cyfrannu 0%).

6.12 Y gwahaniaethau eraill a nodwyd oedd enillion canolrifol uwch o waith am dâl ochr yn ochr ag astudiaethau ymhlith myfyrwyr rhan-amser sy’n hanu o Gymru nag a geir ar gyfer myfyrwyr rhan-amser sy’n hanu o Loegr (y canolrif ar draws yr holl fyfyrwyr oedd £13,500 ar gyfer myfyrwyr rhan-amser sy’n hanu o Gymru a £11,724 ar gyfer myfyrwyr rhan-amser sy’n hanu o Loegr; ac enillion canolrifol i'r rhai sydd mewn gwaith oedd £17,100 a £15,600 yn y drefn honno). Roedd hyn yn rhannol oherwydd cyfran uwch o fyfyrwyr mewn gwaith parhaus (66% o fyfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Gymru o'i gymharu â 59% o fyfyrwyr rhan-amser sy’n hanu o Loegr). Hefyd, cynyddodd enillion cyfartalog (canolrifol) dros amser ar gyfer myfyrwyr rhan-amser sy’n hanu o Gymru (i fyny 14% o £15,060 wedi’i addasu yn 2014 i 2015 i £17,100 yn 2021 i 2022) tra eu bod wedi gostwng rhwng y ddau arolwg (ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant) ar gyfer myfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Loegr (i lawr 4% o £16,315 wedi’i addasu yn 2014 i 2015 i £15,600 yn 2021 i 2022). Arhosodd cyfran y myfyrwyr o Gymru a oedd yn gweithio yn weddol gyson (roedd hyn yn 75% yn 2014 i 2015 a 2021 i 2022) ond gostyngodd hyn dros amser i fyfyrwyr o Loegr (o 83% yn 2014 i 2015 i 74% yn 2021 i 2022).

**Dylanwadau cyllid**

6.13 O ran agweddau tuag at gyllid, nododd cyfrannau tebyg o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru ac sy'n hanu o Loegr fod cyllid (cyllid a chymorth ariannol) wedi dylanwadu ar eu penderfyniadau ynghylch Addysg Uwch, er gwaethaf gwahanol gynigion cymorth (h.y. Grant Cynhaliaeth ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru). Roedd hyn yn wir am fyfyrwyr amser llawn a rhan-amser. Yr eithriadau oedd bod myfyrwyr amser llawn sy’n hanu o Gymru yn fwy tebygol o adrodd bod eu penderfyniad i astudio yng Nghymru neu Loegr wedi ei ddylanwadu gan y cymorth ariannol sydd ar gael iddynt na myfyrwyr sy'n hanu o Loegr (30% o fyfyrwyr amser llawn sy’n hanu o Gymru o'i gymharu â 10% o fyfyrwyr sy’n hanu o Loegr a ddywedodd fod eu penderfyniadau addysg uwch wedi cael eu heffeithio). Roedd myfyrwyr amser llawn sy'n hanu o Loegr yn fwy tebygol o adrodd bod ystyriaethau ariannu wedi dylanwadu ar eu penderfyniad i astudio yn Llundain neu rywle arall na myfyrwyr amser llawn sy’n hanu o Gymru (28% o fyfyrwyr amser llawn sy’n hanu o Loegr o'i gymharu â 17% o fyfyrwyr amser llawn sy'n hanu o Gymru); ac roeddent ychydig yn

fwy tebygol o adrodd bod eu penderfyniad ynghylch pa sefydliad i fynychu wedi cael ei effeithio, na myfyrwyr amser llawn sy’n hanu o Gymru (25% o fyfyrwyr amser llawn sy'n hanu o Loegr o'i gymharu â 18% o fyfyrwyr amser llawn sy'n hanu o Gymru).

6.14 Unwaith eto, nododd cyfrannau tebyg o fyfyrwyr sy’n hanu o Gymru a myfyrwyr sy’n hanu o Loegr fod costau ffioedd dysgu yn eu prifysgol neu goleg wedi dylanwadu'n benodol ar eu penderfyniadau ynghylch astudio. Mae hyn er bod ffioedd wedi cael eu rhewi ar £9,000 ar gyfer myfyrwyr sy’n hanu o Gymru sy'n astudio mewn sefydliadau yng Nghymru (ond yn £9,250 i'r rhai sy'n astudio mewn sefydliadau yn Lloegr). Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau rhwng myfyrwyr sy'n hanu o Gymru a myfyrwyr sy’n hanu o Loegr wedi’u nodi yn arolwg 2014 i 2015, ond roedd y rhain wedi diflannu i raddau helaeth yn arolwg 2021 i 2022.

6.15 Ar draws yr holl fyfyrwyr yn arolwg 2021 i 2022, myfyrwyr rhan-amser sy’n hanu o Gymru oedd y mwyaf tebygol o adrodd na fyddent wedi astudio o gwbl heb gyllid oherwydd costau ffioedd dysgu yn eu prifysgol neu goleg (19%, o'i gymharu â 13% o fyfyrwyr amser llawn sy'n hanu o Loegr a 15% o fyfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Loegr, a 12% o fyfyrwyr amser llawn sy'n hanu o Gymru).

6.16 Dywedodd cyfran debyg o fyfyrwyr amser llawn sy’n hanu o Gymru ac sy’n hanu o Loegr eu bod yn wynebu anawsterau ariannol (45% a 46% yn y drefn honno). Fodd bynnag, roedd myfyrwyr rhan-amser sy’n hanu o Loegr ychydig yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn wynebu anawsterau ariannol na myfyrwyr rhan-amser sy’n hanu o Gymru (44% o'i gymharu â 40%), roeddent hefyd yn fwy tebygol o deimlo bod hyn yn effeithio ar ba mor dda yr oeddent yn ei wneud yn y brifysgol i raddau helaeth (11% o'r holl fyfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Loegr o'i gymharu ag 8% o fyfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Gymru).

## 7. Gwariant (ac eithrio ffioedd dysgu)

7.1 Mae'r adran hon yn archwilio gwariant myfyrwyr o flwyddyn academaidd 2021 i 2022, gan edrych ar fyfyrwyr amser llawn a rhan-amser ar wahân. Yn wahanol i amcangyfrifon o incwm myfyrwyr, mae'r rhai ar gyfer gwariant wedi deillio o ddwy ffynhonnell, gan ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd yn yr holiadur, ar y cyd â'r dyddiadur gwariant saith diwrnod.[60]

[60] Gweler Atodiad A - Manylion technegol am wybodaeth am feintiau samplau.

7.2 Roedd yr holiadur yn ymdrin â'r eitemau gwariant mwyaf, megis ffioedd dysgu, rhent, biliau cartref a phrynu eitemau mwy fel cyfrifiaduron. Roedd y dyddiadur yn ymdrin ag eitemau o wariant llai fel bwyd a diod, a nwyddau cartref llai o faint. Ar gyfer pob myfyriwr, cyfrifwyd amcangyfrifon blynyddol trwy luosi cyfansymiau wythnosol â nifer yr wythnosau mewn blwyddyn academaidd (39). Ar gyfer data a gasglwyd yn yr holiadur, troswyd cyfansymiau misol yn gyfansymiau wythnosol yn gyntaf ac yna eu lluosi â nifer yr wythnosau mewn blwyddyn academaidd.

7.3 Roedd rhai mesurau gwariant, fel 'costau byw' yn cynnwys data o’r dyddiadur a’r holiadur.[61] Roedd mesurau eraill, fel 'costau tai', yn defnyddio data holiadur yn unig. O ystyried y cyfraddau ymateb is i'r dyddiadur, roedd gan y mesurau hynny a oedd yn cynnwys data dyddiadur feintiau sylfaenol llai na'r rhai a oedd yn defnyddio data holiadur yn unig.[62] Mae amcangyfrifon o wariant ar gyfer myfyrwyr a oedd yn rhannu cydgyfrifoldeb ariannol am gostau tai neu wariant hanfodol arall gyda phartner wedi'u haddasu, lle barnwyd bod y gwariant hwnnw'n wariant ar y cyd yn hytrach na’n wariant unigol, yn dilyn y weithdrefn a ddefnyddir ar gyfer incwm ar y cyd.[63]

7.4 Mae'r adran hon yn archwilio prif feysydd gwariant myfyrwyr, hynny yw, y gwahanol is-gategorïau o wariant myfyrwyr, sef costau cyfranogi, costau byw, costau tai, a gwariant ar blant.

7.5 Mae costau cyfranogi yn cynnwys costau cwrs uniongyrchol, costau hwyluso a chostau ffioedd dysgu. Pan adroddir cyfanswm y costau cyfranogi, cyfanswm costau cyfranogi ac eithrio ffioedd yw hyn. Defnyddiwyd y dull hwn i sicrhau cysondeb ar draws dadansoddiad 2021 i 2022 o gyfanswm incwm a chyfanswm y gwariant, sydd hefyd yn eithrio dylanwad ffioedd dysgu.[64]

---

[61] Gweler Atodiad 4 yn yr adroddiad technegol am fanylion llawn: gellir dod o hyd i adroddiad technegol ar y dudalen we hon [Arolwg o incwm a gwariant myfyrwyr: 2021 i 2022 - GOV.UK (www.gov.uk)]

[62] Casglwyd data gwariant o'r prif arolwg a hefyd y dyddiadur gwariant, golygai hyn y gallai'r seiliau ar gyfer ffigurau gwariant amrywio yn dibynnu ar gategori’r gwariant, sut y deilliwyd hyn a'r ffynonellau data a ddefnyddiwyd i lunio’r newidyn. Bydd seiliau gwariant hefyd yn wahanol am yr un rhesymau o'r niferoedd sylfaenol a ddefnyddir wrth adrodd ffigyrau incwm. Yn ogystal, gwnaed rhywfaint o gyfrifiad ar gyfer y ffigurau incwm i sicrhau bod y ffigurau hyn yn seiliedig ar y set lawn o achosion, ond nid oedd dull o'r fath yn bosibl ar gyfer ffigurau gwariant. Gweler yr adroddiad technegol ar wahân am esboniad manylach

[63] Diffiniwyd cyd-gyfrifoldeb ariannol naill ai fel rhannu costau tai neu wariant hanfodol arall yn rheolaidd gyda phartner. Y dull addasu oedd rhannu’r gwariant ar y cyd â dau. Rhoddir manylion llawn yn yr adroddiad technegol.

[64] Ar gyfer adran gwariant y crynodeb hwn, mae ffioedd dysgu wedi'u heithrio o'r rhan fwyaf o’r adrodd ar gyfanswm y costau cyfranogi a chyfanswm y gwariant. Roedd adran incwm y crynodeb yn dileu'r incwm o Fenthyciadau Ffioedd Dysgu o beth o’r adrodd. Mae'r gwahaniaeth hwn mewn terminoleg (ffioedd yn erbyn benthyciadau) yn adlewyrchu'r ffaith bod benthyciadau yn ffynhonnell incwm, tra bod ffioedd dysgu yn gost. Nid yw pob myfyriwr yn cymryd Benthyciadau Ffioedd Dysgu, a gofynnwyd i'r cyfranogwyr adrodd am symiau benthyciadau a chostau dysgu ar wahân.

7.6 Mae costau byw yn cynnwys gwariant ar fwyd a diod, adloniant personol, nwyddau cartref a theithio heb fod yn rhan o’r cwrs.

7.7 Mae costau tai yn cynnwys costau morgais a rhent, costau cadw a chostau tai eraill.

7.8 Mae gwariant ar blant yn cynnwys eitemau fel teganau, dillad, gwisg ysgol, adloniant, cewynnau ac offer babanod, cinio ysgol, tripiau ysgol neu ffioedd ysgol, ffioedd meithrinfa neu warchodwr plant, gwarchodwyr, gwarchodwyr, gofal neu glybiau ar ôl ysgol.

7.9 Mae'r adran hon yn adrodd ar gyfanswm gwariant ac eithrio gwariant ar ffioedd dysgu. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â'r dadansoddiad o gyfanswm incwm ac yn adlewyrchu'r ffaith nad yw'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn gwario arian ar ffioedd eu hunain, gan fod eu Benthyciad Ffioedd Dysgu (os caiff ei gymryd) yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'w darparwr addysg uwch.

7.10 Rhoddir dadansoddiad o gyfanswm gwariant gan gynnwys ffioedd mewn adran ar wahân isod.

### Prif feysydd gwariant myfyrwyr

#### Myfyrwyr amser llawn

7.11 Mae costau byw yn cipio gwariant ar fwyd, adloniant, eitemau personol,[65] a gwariant arall nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â chyrsiau myfyrwyr.[66] Ysgwyddwyd costau byw gan yr holl fyfyrwyr ac roeddent yn cynrychioli'r categori gwariant uchaf ar gyfer myfyrwyr amser llawn, gan gyfrif am 63% o gyfanswm gwariant cymedrig yn 2021 i 2022 o'i gymharu â 61% yn 2014 i 2015.[67]

7.12 Cyfanswm costau byw canolrifol myfyrwyr amser llawn yn 2021 i 2022 oedd £7,028[68]. Mae hyn yn ostyngiad o 7% o'i gymharu â chyfanswm y gwariant ar gostau byw o £7,522 yn 2014 i 2015 ar ôl uwchraddio.[69] Gallai'r gostyngiad mewn costau byw adlewyrchu ymdrechion myfyrwyr i leihau gwariant yng nghyd-destun cynnydd mewn costau byw.

---

[65] Ar gyfer myfyrwyr amser llawn yn gwario ar 'eitemau personol', yr eitemau gwariant mwyaf yn 2021 i 2022 oedd dillad, esgidiau ac ategolion, ac yna nwyddau ymolchi a chontractau ffôn symudol.

[66] Mae costau byw a'r is-gategorïau yn cael eu haddasu ar gyfer cyd-gyfrifoldeb ariannol.

[67] Cyfrifwyd y ffigur hwn fel costau byw cymedrig fel cyfran o gyfanswm costau cymedrig. Fodd bynnag, nid yw pob myfyriwr yn ysgwyddo'r holl gostau, er enghraifft costau tai a gofal plant. Ni ellir gwneud yr un cyfrifiad ar gyfer costau nad yw pob myfyriwr yn eu hysgwyddo.

[68] Cyfrifir hyn drwy ychwanegu'r gwariant perthnasol o ddata'r dyddiaduron ac yna lluosi â 39 i roi cyfanswm gwariant ar draws y flwyddyn academaidd.

[69] Fodd bynnag, gall ffigurau 2021/22 dangynrychioli gwariant ar gostau byw o'i gymharu â 2014/15, gan fod costau byw eraill wedi'u heithrio o'r cyfansymiau yr adroddir amdanynt er mwyn osgoi dyblygu gwariant a gofnodwyd eisoes mewn rhannau eraill o'r arolwg.

7.13 Ar draws yr holl fyfyrwyr amser llawn, roedd y gwariant mwyaf o fewn costau byw ar fwyd, gyda gwariant canolrifol o £2,168. Cynyddodd y gwariant ar fwyd 10% o'i gymharu â 2014 i 2015; bwyd oedd eitem fwyaf gwariant myfyrwyr amser llawn ar gostau byw bryd hynny hefyd, gyda gwariant canolrifol wedi'i addasu o £1,970.

7.14 Roedd gwariant arall o fewn costau byw yn 2021 i 2022 yn cynnwys canolrif o £1,249 ar eitemau personol, £822 ar adloniant, £117 ar nwyddau cartref, a £1,270 ar deithio heb fod yn rhan o’r cwrs yn 2021 i 2022. O'i gymharu â chanolrifau 2014 i 2015 wedi’u haddasu, mae gwariant ar gyfer myfyrwyr amser llawn wedi gostwng 24% ar eitemau personol o ganolrif wedi'i addasu o £1,634; wedi gostwng 13% ar gyfer costau adloniant o ganolrif o £945; wedi codi 80% ar gyfer nwyddau cartref o wariant canolrifol wedi'i addasu o £65, ac wedi gostwng 22% ar deithio heb fod yn rhan o’r cwrs o'r canolrif o £1,621.

7.15 Mae costau tai yn cipio gwariant ar rent a morgeisi, costau cadw,[70] a chostau tai eraill (fel biliau cartrefi a thaliadau’r dreth gyngor).

7.16 Roedd myfyrwyr amser llawn yn byw gan amlaf mewn eiddo ar rent (nad oedd yn berchen i’r brifysgol) gyda ffrindiau neu fyfyrwyr eraill (31%), gyda rhieni neu berthnasau (24%) neu mewn llety prifysgol (21%). Roedd cyfrannau llai yn rhentu ar eu pen eu hunain neu gyda'r teulu (14%), yn prynu eiddo gyda morgais (8%) neu'n byw mewn eiddo sy'n eiddo i'w rhieni ond nid gyda nhw (1%). Roedd trefniadau tai myfyrwyr amser llawn sy'n hanu o Gymru a oedd yn cymryd rhan yn AIGM 2021 i 2022 yn debyg iawn i'r trefniadau a ganfuwyd yn 2014 i 2015. Yn 2014 i 2015, roedd 33% yn rhentu'n breifat gyda ffrindiau, 23% yn byw gyda'u rhieni neu berthnasau ac roedd 22% mewn llety prifysgol.

7.17 Y gwariant canolrifol ar gostau tai ar draws yr holl fyfyrwyr amser llawn oedd £4,095 (gan ostwng 8% o £4,435 yn 2014 i 2015 ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant). Dylid nodi nad oedd 15% o fyfyrwyr amser llawn wedi nodi fod ganddynt unrhyw gostau tai, oherwydd eu bod fel arfer yn byw gyda rhiant neu berthnasau eraill – mae hyn yn cymharu ag 11% o fyfyrwyr amser llawn yn nodi nad oedd ganddynt unrhyw gostau tai yn 2014 i 2015. I'r rhai a oedd yn ysgwyddo costau tai (85%), y gwariant canolrifol yn 2021 i 2022 oedd £4,500, a oedd yn cynrychioli 35% o gyfanswm eu gwariant (ac eithrio ffioedd).

[70] Dyma'r costau y mae’n rhaid eu talu i sicrhau eiddo dros gyfnod gwyliau'r haf.

7.18 Ar draws yr holl fyfyrwyr amser llawn, y gwariant mwyaf o fewn costau tai oedd costau morgais a rhent, gyda gwariant canolrifol o £3,600, yn debyg i'r gwariant canolrifol o £3,502 wedi'i addasu yn 2014 i 2015.

7.19 Roedd costau morgais a rhent yn amrywio yn dibynnu ar sefyllfa dai myfyrwyr. Yn 2021 i 2022, y costau canolrifol ar gyfer myfyrwyr amser llawn sy'n berchen ar eiddo oedd £2,250 ac roeddent yn £3,600 i'r rhai sy'n rhentu ar eu pennau eu hunain neu gyda'r teulu. Mae costau morgeisi canolrifol ar gyfer myfyrwyr amser llawn sy'n berchen ar eiddo wedi gostwng 23% o ganolrif 2014 i 2015 wedi'i addasu o £2,918, tra bod y costau hyn wedi gostwng 1% yn unig i'r rhai sy'n rhentu ar eu pennau eu hunain neu gyda'r teulu, gyda'r canolrif wedi'i addasu yn 2014 i 2015 yn £3,648. Yn 2021 i 2022, roedd costau morgais a rhent canolrifol yn £3,897 i'r rhai oedd yn rhentu gyda ffrindiau, cynnydd o 4% o'r canolrif o £3,735 yn 2014 i 2015 ar ôl uwchraddio, a'r costau canolrifol i'r rhai oedd yn byw mewn llety prifysgol neu goleg oedd £5,400, cynnydd o 3% o'r canolrif o £5,252 yn 2014 i 2015 ar ôl uwchraddio.

7.20 Mae costau cyfranogi yn cynnwys costau cwrs uniongyrchol fel llyfrau, cyfrifiaduron, offer arbennig, argraffu a deunydd ysgrifennu; costau hwyluso fel teithio i'r brifysgol neu'r coleg, parcio yn y brifysgol neu'r coleg, a theithiau cysylltiedig â chwrs.[71]

7.21 O edrych ar gostau cwrs uniongyrchol (is-gategori o wariant cyfranogi) ar draws yr holl fyfyrwyr amser llawn, y gwariant canolrifol oedd £265. Roedd 84% o fyfyrwyr amser llawn wedi ysgwyddo costau cwrs uniongyrchol yn 2021 i 2022 gan wario canolrif o £350. Mae hyn yn cymharu â chanolrif 2014 i 2015 o £480 (ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant) ar gyfer myfyrwyr sy'n ysgwyddo costau cwrs uniongyrchol.

7.22 Roedd 45% o fyfyrwyr amser llawn yn ysgwyddo costau hwyluso cyfranogiad (e.e. teithio), gan wario canolrif o £300, gostyngiad o 42% o ganolrif £2014 i 2015 a addaswyd o £520 i fyfyrwyr amser llawn sy'n ysgwyddo costau hwyluso. Gallai'r gostyngiad hwn fod oherwydd cynnydd mewn dysgu ar-lein yn 2021 i 2022 o'i gymharu â 2014 i 2015.

7.23 Y categori gwariant olaf yw gwariant ar blant ac ni fydd gan y rhan fwyaf o fyfyrwyr amser llawn unrhyw wariant ar blant. Ymhlith myfyrwyr amser llawn, yn 2021 i 2022 roedd gan 12% blant dibynnol ac roedd 11% o'r holl fyfyrwyr amser llawn yn nodi gwariant ar blant (o'i gymharu â 10% o fyfyrwyr amser llawn yn 2014 i 2015). O'r

[71] Roedd ffioedd dysgu wedi'u cynnwys wrth adrodd am gyfanswm y costau cyfranogi mewn AIGM blaenorol.

rhain, y gwariant canolrifol yn 2021 i 2022 oedd £3,673, cynnydd o'r canolrif wedi'i addasu o £3,467 ar gyfer 2014 i 2015.

**Myfyrwyr rhan–amser**

7.24 Costau byw oedd yn cyfrif am y gyfran fwyaf o gyfanswm gwariant myfyrwyr rhan-amser.

7.25 Ar draws pob myfyriwr rhan-amser, y gwariant canolrifol ar fwyd oedd £1,755[72] (sy'n sylweddol is na'r hyn ar gyfer myfyrwyr amser llawn, o bosibl gan fod myfyrwyr rhan-amser yn fwy tebygol o rannu'r costau hyn gyda phartner). Mae hyn yn ostyngiad o 49% ers 2014 i 2015, pan oedd y gwariant canolrifol wedi'i addasu ar fwyd yn £3,438 i fyfyrwyr rhan-amser, o'i gymharu â'r cynnydd o 10% ar wariant bwyd i fyfyrwyr amser llawn rhwng 2014 i 2015 a 2021 i 2022.

7.26 Y gwariant canolrifol mwyaf ar draws yr holl fyfyrwyr rhan-amser yn y categori costau byw oedd teithio heb fod yn rhan o'r cwrs, gyda chanolrif o £2,340 (llawer uwch na'r hyn a geir ar gyfer myfyrwyr amser llawn). Gostyngodd y gwariant canolrifol ar deithio heb fod yn rhan o'r cwrs 43% rhwng 2014 i 2015 a 2021 i 2022, o ganolrif 2014 i 2015 wedi'i addasu o £4,075. Roedd gwariant arall mewn costau byw yn cynnwys canolrif o £1,517 ar eitemau personol (unwaith eto mae hyn yn uwch na'r hyn a ganfuwyd ar gyfer myfyrwyr amser llawn, a gostyngiad o 46% o ganolrif 2014 i 2015 wedi'i addasu o £2,817), £695 ar adloniant (gostyngiad o 54% o ganolrif 2014 i 2015 wedi'i addasu o £1,517), a £228 ar nwyddau cartref (gostyngiad o 12% rhwng canolrif 2014 i 2015 wedi'i addasu o £259).

7.27 Ar draws yr holl fyfyrwyr rhan-amser, y canolrif ar gyfer costau byw oedd £7,849 yn 2021 i 2022 (gostyngiad o 39% o £12,926 yn 2014 i 2015 ar ôl addasu). Gallai hyn eto awgrymu bod myfyrwyr yn ceisio lleihau eu gwariant ond hefyd mae posibilrwydd o danamcangyfrif cyfanswm costau byw yn 2021 i 2022.[73]

7.28 Ar draws pob myfyriwr rhan-amser, y gwariant canolrifol ar gostau tai oedd £4,138 yn 2021 i 2022.

7.29 Yn dilyn y patrwm ar gyfer myfyrwyr amser llawn, gostyngodd y gost tai canolrifol ar gyfer myfyrwyr rhan-amser (13%) o'r ffigwr a addaswyd ar gyfer chwyddiant ar gyfer 2014 i 2015 o £4,774. Y gwariant canolrifol ar gostau tai ar gyfer y rhai sy'n adrodd

[72] Mae hyn yn cyfateb wariant wythnosol canolrifol o £45 ar fwyd. Cyfrifir hyn drwy ychwanegu'r gwariant perthnasol o ddata'r dyddiaduron ac yna lluosi â 39 i roi cyfanswm gwariant ar draws y flwyddyn academaidd.
[73] Gall ffigurau 2021/22 dangynrychioli gwariant ar gostau byw o'i gymharu â 2014/15, gan fod costau byw eraill wedi'u heithrio o'r cyfansymiau yr adroddir amdanynt er mwyn osgoi dyblygu gwariant a gofnodwyd eisoes mewn rhannau eraill o'r arolwg.

am y categori hwn o wariant (95% o'r holl fyfyrwyr rhan-amser yn 2021 i 2022 o'i gymharu â 92% o'r holl fyfyrwyr rhan-amser yn 2014 i 2015) oedd £4,208, gostyngiad o'r canolrif wedi'i addasu o £4,642 yn 2014 i 2015.

7.30 Roedd mwy o fyfyrwyr rhan-amser na myfyrwyr amser llawn yn berchen ar eu cartrefi neu'n prynu eu cartrefi (47% o'i gymharu ag 8%) neu yn rhentu ar eu pennau eu hunain neu gyda pherthnasau (27% o'i gymharu â 14%). Yn ogystal, roedd 19% o fyfyrwyr rhan-amser yn byw gyda rhieni neu berthnasau wrth astudio o'i gymharu â 24% o fyfyrwyr amser llawn. O'i gymharu ag astudiaeth 2014 i 2015, roedd cyfran ychydig yn is o fyfyrwyr rhan-amser yn rhentu ar eu pennau eu hunain neu gyda pherthnasau yn 2021 i 2022 (27% o'i gymharu â 36% yn 2014 i 2015), a chyfran ychydig yn uwch yn berchen ar eu cartrefi neu'n eu prynu (47% o'i gymharu â 41% yn 2014 i 2015). Arhosodd cyfran y myfyrwyr rhan-amser a oedd yn byw gyda rhieni neu berthnasau eraill yn gymharol sefydlog (19% o'i gymharu ag 20% yn 2014 i 2015).

7.31 Y gwariant mwyaf unwaith eto o fewn costau tai oedd costau morgais a rhent, gyda gwariant canolrifol ar draws yr holl fyfyrwyr rhan-amser o £2,376, gostyngiad o 19% o ganolrif 2014 i 2015 wedi'i addasu o £2,941. Myfyrwyr rhan-amser mewn llety prifysgol oedd yn ysgwyddo'r costau rhent canolrif uchaf sef £6,210. Ysgwyddwyd yr ail gostau rhent canolrifol uchaf gan fyfyrwyr rhan-amser yn rhentu gyda ffrindiau sef £4,050 (gostyngiad o 25% o'r canolrif wedi'i addasu o £5,428 yn 2014 i 2015). Roedd myfyrwyr rhan-amser sy'n berchen ar eu cartrefi yn ysgwyddo costau morgais canolrifol o £2,475 (gostyngiad o 16% o'r canolrif wedi'i addasu o £2,941 yn 2014 i 2015), roedd y rhai sy'n rhentu ar eu pennau eu hunain neu gyda'u teuluoedd yn ysgwyddo costau rhent canolrifol o £2,831 (gostyngiad o 28% o'r canolrif wedi'i addasu o £3,939 yn 2014 i 2015), ac roedd y rhai sy'n byw gyda'u rhieni wedi ysgwyddo costau rhent neu forgais canolrifol o £900 (gostyngiad o 23% o'r canolrif wedi'i addasu £1,167[74] yn 2014 i 2015).

7.32 Roedd gan fyfyrwyr rhan-amser wariant canolrifol uwch ar gostau tai eraill na'r hyn a ganfuwyd ar gyfer myfyrwyr amser llawn, roedd y costau hyn yn cynnwys biliau cartref a thaliadau'r dreth gyngor; ar draws pob myfyriwr rhan-amser roedd hyn yn £1,679 ond roedd yn £0 i fyfyrwyr amser llawn.[75] Wrth gyfrif yn unig am fyfyrwyr a oedd yn ysgwyddo costau tai eraill (81% o fyfyrwyr rhan-amser a 48% o fyfyrwyr

[74] Mae'r niferoedd sylfaenol yn rhy fach i adrodd am wariant canolrifol is-grwpiau eraill ar forgais a rhent.
[75] Mae myfyrwyr amser llawn wedi'u heithrio rhag y dreth gyngor a allai esbonio cyfran o'r gwahaniaeth rhwng gwariant ar filiau cartref a'r dreth gyngor.

amser llawn), y gwariant canolrifol a adroddwyd ar gyfer myfyrwyr rhan-amser oedd £1,855 a £981 ar gyfer myfyrwyr amser llawn.

7.33 Ar draws yr holl fyfyrwyr rhan-amser, mae'r costau cyfranogi yn cynnwys costau cwrs uniongyrchol, costau hwyluso a ffioedd dysgu. Cyfanswm gwariant canolrifol myfyrwyr rhan-amser ar gostau cyfranogi, ac eithrio ffioedd, oedd £490, gostyngiad o 44% o'r canolrif a addaswyd yn 2014 i 2015 (ac eithrio ffioedd) o £868.

7.34 O edrych ar gostau cwrs uniongyrchol, ar draws yr holl fyfyrwyr rhan-amser y gwariant canolrifol oedd £350, o'i gymharu â £363 yn 2014 i 2015 (mân ostyngiad o 4%, ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant). Roedd 86% o fyfyrwyr rhan-amser yn ysgwyddo costau cwrs uniongyrchol yn 2021 i 2022 gan wario canolrif o £350, o'i gymharu â chanolrif 2014 i 2015 wedi'i addasu ar gyfer y rhai sy'n ysgwyddo costau cwrs uniongyrchol o £389 (gostyngiad o 10% ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant).

7.35 Ysgwyddwyd costau hwyluso[76] gan 27% o fyfyrwyr rhan-amser, a wariodd ganolrif o £500, gostyngiad o 30% ers 2014 i 2015, pan oedd y canolrif yn £711, ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant.

7.36 Roedd cyfran uwch o fyfyrwyr rhan-amser na myfyrwyr amser llawn yn rhieni sy'n byw gyda phlant dibynnol (46%), ac felly nododd cyfran uwch (41%) eu bod yn gwario ar blant. Y gwariant canolrifol ar gyfer yr is-grŵp hwn o fyfyrwyr rhan-amser gyda gwariant ar blant oedd £2,553. Yn 2014 i 2015, roedd 50% o fyfyrwyr rhan-amser yn rhieni sy'n byw gyda phlant dibynnol a nododd 50% eu bod yn gwario ar blant, gyda gwariant canolrifol wedi'i addasu o £2,228.

### Cyfanswm gwariant (ac eithrio ffioedd dysgu)

#### Myfyrwyr amser llawn

7.37 Arhosodd cyfanswm gwariant canolrifol, ac eithrio cost ffioedd dysgu, myfyrwyr amser llawn tua'r un fath rhwng 2014 i 2015 a 2021 i 2022, gyda chanolrif wedi'i addasu o £13,113 yn 2014 i 2015 o'i gymharu â £12,878 yn 2021 i 2022.

#### Myfyrwyr rhan–amser

7.38 Gostyngodd cyfanswm gwariant canolrifol myfyrwyr rhan-amser, ac eithrio cost ffioedd dysgu, 28% rhwng 2014 i 2015 a 2021 i 2022, o ganolrif wedi'i addasu o £19,897 i £14,425 yn 2021 i 2022.

[76] Mae costau hwyluso yn cynnwys teithio i'r brifysgol neu'r coleg, parcio mewn prifysgol neu goleg, a theithiau cysylltiedig â'r cwrs.

7.39 Roedd cyfanswm gwariant ac eithrio ffioedd dysgu yn 2021 i 2022 11% yn uwch ar gyfer myfyrwyr rhan-amser o'i gymharu â myfyrwyr amser llawn.

## 8. Cyfanswm gwariant (gan gynnwys ffioedd dysgu)

8.1 Gan adlewyrchu dull adrodd cyfanswm yr incwm, adroddir isod am gyfanswm y gwariant gan gynnwys gwariant ar ffioedd dysgu. Mae adrodd cyfanswm y gwariant gan gynnwys ffioedd yn caniatáu ar gyfer cymharu yn ôl â AIGM blaenorol, sydd i gyd wedi cyfrif a dadansoddi ffioedd dysgu a Benthyciadau Ffioedd Dysgu fel rhan o gyfanswm incwm myfyrwyr a chyfanswm gwariant myfyrwyr.

8.2 Fel y trafodwyd eisoes, mae pob myfyriwr yn gorfod talu costau ffioedd dysgu ond nid yw pob myfyriwr yn talu amdanynt yn gyfan gwbl neu'n rhannol gyda Benthyciadau Ffioedd Dysgu, er enghraifft gall rhai myfyrwyr dalu am rywfaint neu ran o'u ffioedd trwy incwm a dderbynnir gan eu teuluoedd neu gymorth gan eu cyflogwyr.

### Myfyrwyr amser llawn

8.3 At ei gilydd, arhosodd cyfanswm gwariant canolrifol (gan gynnwys costau ffioedd dysgu) ar gyfer myfyrwyr amser llawn bron yr un fath, sef £21,488 yn 2014 i 2015 (addaswyd ar gyfer chwyddiant) a £21,858 yn 2021 i 2022.

8.4 Roedd cyfanswm gwariant canolrifol myfyrwyr amser llawn (gan gynnwys costau ffioedd dysgu) yn uwch nag ar gyfer myfyrwyr rhan-amser (bwlch o 24%).

### Myfyrwyr rhan-amser

8.5 Gostyngodd cyfanswm gwariant canolrifol myfyrwyr rhan-amser (gan gynnwys ffioedd) 24% o £22,010 (addaswyd ar gyfer chwyddiant) yn 2014 i 2015 i £16,705 yn 2021 i 2022.

## 9. Cymariaethau gwariant â Lloegr

9.1 Yn yr adran hon rydym yn cymharu gwariant o fewn y prif gategorïau o gostau byw, tai, cyfranogi, personol a chostau cysylltiedig â phlant ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru a myfyrwyr sy’n hanu o Loegr.

### Myfyrwyr amser llawn

9.1 Cyfanswm y gwariant canolrifol ar gyfer myfyrwyr amser llawn sy’n hanu o Gymru oedd £12,878, 12% yn uwch na'r canolrif o £11,509 i fyfyrwyr amser llawn sy’n hanu o Loegr. Roedd y lefel uwch hon o gyfanswm gwariant canolrifol ar gyfer myfyrwyr

amser llawn sy'n hanu o Gymru oherwydd costau byw sylweddol uwch. Roedd gwariant ar blant ychydig yn uwch ar gyfer myfyrwyr amser llawn sy’n hanu o Gymru, tra bod costau tai a chostau cyfranogi yn is i fyfyrwyr amser llawn sy’n hanu o Gymru o'i gymharu â myfyrwyr amser llawn sy’n hanu o Loegr.

9.2 Costau byw oedd y categori gwariant uchaf ar gyfer myfyrwyr amser llawn sy’n hanu o Gymru a myfyrwyr amser llawn sy’n hanu o Loegr, er eu bod yn cynrychioli cyfran uwch o wariant ar gyfer myfyrwyr sy’n hanu o Gymru ar 61% o gyfanswm eu gwariant o'i gymharu â 55% o gyfanswm y gwariant ar gyfer myfyrwyr amser llawn sy’n hanu o Loegr.

9.3 Roedd cyfanswm costau byw canolrifol myfyrwyr amser llawn sy’n hanu o Gymru yn 2021 i 2022 wedi gostwng ers 2014 i 2015 ond roeddent yn dal i fod yn sylweddol uwch na chostau myfyrwyr sy’n hanu o Loegr (£7,028 o'i gymharu â £5,841).

9.4 Ysgwyddwyd costau tai gan 85% o fyfyrwyr amser llawn sy’n hanu o Gymru ac 87% o fyfyrwyr amser llawn sy’n hanu o Loegr. Gan amlaf, roedd y rhai a ddywedodd nad oedd ganddynt gostau tai yn byw gyda rhiant neu berthnasau eraill. I'r rhai nad oedd ganddynt gostau tai, roedd y gwariant canolrifol ar gyfer myfyrwyr amser llawn sy’n hanu o Gymru ychydig yn is, sef £4,500, na myfyrwyr amser llawn sy’n hanu o Loegr, sef £4,940.

9.5 Roedd costau cyfranogi yn sylweddol is i fyfyrwyr amser llawn sy’n hanu o Gymru (£468) o'i gymharu â £543 i fyfyrwyr sy'n hanu o Loegr.

9.6 Nid oes gan y mwyafrif o fyfyrwyr amser llawn unrhyw wariant yn y categori olaf sef gwariant ar blant (11% ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru a 7% ar gyfer myfyrwyr sy’n hanu o Loegr). O'r rhai a adroddodd eu bod yn gwario ar blant, y gwariant canolrifol yn 2021 i 2022 ar gyfer myfyrwyr amser llawn sy’n hanu o Gymru oedd £3,673, ychydig yn uwch na'r £3,438 a wariwyd gan fyfyrwyr amser llawn sy’n hanu o Loegr ar blant.

**Myfyrwyr rhan-amser**

9.7 Ymhlith myfyrwyr rhan-amser sy’n hanu o Gymru, roedd y darlun ychydig yn wahanol gyda chyfanswm canolrifol y gwariant yn debyg iawn rhwng y ddau grŵp, gyda chanolrif o £14,425 i fyfyrwyr rhan-amser sy’n hanu o Gymru o'i gymharu â £14,282 i fyfyrwyr rhan-amser sy’n hanu o Loegr.

9.8 Costau byw oedd yn cyfrif am y gyfran fwyaf o gyfanswm gwariant myfyrwyr rhan-amser sy’n hanu o Gymru ac o Loegr. Yn wahanol i'r sefyllfa gyda myfyrwyr amser

llawn, roedd y gwariant canolrifol ar gostau byw ar gyfer myfyrwyr rhan-amser sy’n hanu o Gymru yn is (£7,849) nag ar gyfer myfyrwyr rhan-amser sy’n hanu o Loegr (£8,477).

9.9 Ar draws yr holl fyfyrwyr rhan-amser, roedd y gwariant canolrifol ar gostau tai yn £4,138 ar gyfer myfyrwyr sy’n hanu o Gymru, ychydig yn is na’r canolrif o £4,510 gyfer myfyrwyr rhan-amser sy’n hanu o Loegr. Roedd costau cyfranogi yn uwch i fyfyrwyr rhan-amser sy’n hanu o Gymru o'i gymharu â myfyrwyr rhan-amser sy’n hanu o Loegr, sef £490 o’i gymharu â £400.

9.10 Roedd cyfran uwch o fyfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Gymru ac sy’n hanu o Loegr na myfyrwyr amser llawn yn rhieni sy'n byw gyda phlant dibynnol, gyda chyfran uwch o fyfyrwyr rhan-amser sy’n hanu o Gymru yn adrodd eu bod yn gwario ar blant o'i gymharu â myfyrwyr rhan-amser sy’n hanu o Loegr (41% o'i gymharu â 35%). Roedd y gwariant canolrifol ar gyfer yr is-grŵp hwn o fyfyrwyr rhan-amser gyda gwariant ar blant yn debyg iawn, £2,553 i fyfyrwyr rhan-amser sy’n hanu o Gymru o'i gymharu â £2,516 ar gyfer myfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Loegr.

## 10. Sefyllfa ariannol

10.1 Mae'r adran hon yn archwilio sut mae myfyrwyr yn cronni ac yn disbyddu eu cynilion ar draws y flwyddyn academaidd a faint mae myfyrwyr yn ei fenthyca (lefelau benthyca a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn academaidd) ac o ba ffynonellau.[77] Diffinnir cynilion yng nghyfres AIGM fel arian y mae myfyrwyr wedi'i 'neilltuo' a gallai hyn fod yn arian a gedwir mewn banciau, cyfrifon cymdeithasau adeiladu neu ISAs. Gall hefyd fod yn arian y mae myfyrwyr wedi'i neilltuo yn eu cyfrifon cyfredol nad ydynt yn bwriadu ei wario. Diffinnir bod gan rai unigolion gydgyfrifoldeb ariannol gyda phartner, yn yr amgylchiadau hyn ystyrir cynilion ar y cyd ond mae'r swm cyffredinol wedi'i haneru, i ddarparu amcangyfrifon unigol o gynilion.

### Cynilion

10.2 Yn gyffredinol, nododd 66% o fyfyrwyr amser llawn fod ganddynt gynilion ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, o'i gymharu â 61% yn 2014 i 2015. Roedd rhagfynegiadau ar gyfer diwedd y flwyddyn academaidd yn awgrymu mai ychydig

[77] Mae'n bwysig nodi, ar gyfer y dadansoddiad hwn, bod cynilion a benthyca yn cael eu harchwilio ar wahân i incwm a gwariant; felly, nid yw'r dadansoddiad yn ystyried y gwahaniaeth net rhwng cyfanswm incwm a gwariant myfyrwyr a adroddir. Mae hyn yn cyd-fynd â'r fethodoleg sefydledig a nodwyd yn yr Arolwg o Wariant Teuluoedd a'r AIGM blaenorol. Dylid cyfeirio at yr adroddiad technegol am fwy o wybodaeth.

iawn o fyfyrwyr fyddai wedi defnyddio eu holl gynilion, gan fod 65% o fyfyrwyr amser llawn yn dal i ddisgwyl cael cynilion ar y pwynt hwn.

10.3 O'r myfyrwyr amser llawn gyda chynilion, y canolrif oedd £2,000 ar ddechrau ac ar ddiwedd y flwyddyn academaidd. Gellir gweld yr un patrwm ar gyfer myfyrwyr amser llawn yn 2014 i 2015, gan fod gan fyfyrwyr â chynilion ganolrif wedi'i addasu o gynilion o £1,000 ar ddechrau'r flwyddyn ac ar ddiwedd y flwyddyn academaidd. Felly mae'r canolrif ar gyfer myfyrwyr amser llawn gyda chynilion wedi dyblu o ran cynilion ar ddechrau ac ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.

10.4 At ei gilydd, dywedodd 45% o fyfyrwyr rhan-amser fod ganddynt gynilion ar ddechrau'r flwyddyn academaidd ac roedd 44% o fyfyrwyr rhan-amser yn rhagweld y byddai ganddynt gynilion ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.

10.5 O'r myfyrwyr rhan-amser gyda chynilion, y cynilion canolrifol ar ddechrau'r flwyddyn oedd £2,500 a £2,000 ar ddiwedd y flwyddyn academaidd, o'i gymharu â chanolrif 2014 i 2015 wedi'i addasu o £1,500 ar gyfer dechrau a diwedd y flwyddyn academaidd. Felly mae cynilion canolrifol ar ddechrau'r flwyddyn (i'r myfyrwyr rhan-amser hynny sydd â chynilion) wedi codi 67% ers 2014 i 2015, ac mae cynilion canolrifol a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn wedi codi 33%.

**Benthyca**

10.6 Mae gan fyfyrwyr fynediad at ystod eang o opsiynau benthyca a gallant gronni dyled sylweddol dros gyfnod eu cwrs. Mae'r prif gategorïau o ddyled a gwmpesir yn yr arolwg yn cynnwys ffynonellau credyd masnachol fel benthyciadau banc, cardiau credyd ac unrhyw gytundebau hurbwrcasu; gorddrafftiau banc; ôl-ddyledion gan gynnwys unrhyw filiau heb eu talu; benthyciadau myfyrwyr; ac unrhyw Fenthyciadau Caledi sy'n weddill (ac yn ad-daladwy). Roedd gan y rhan fwyaf o fyfyrwyr fenthyciadau, 97% o fyfyrwyr amser llawn ac 82% o fyfyrwyr rhan-amser. Ar gyfer y ddau grŵp, roedd benthyca ar ffurf benthyciadau myfyrwyr yn bennaf (gan gynnwys Benthyciadau Ffioedd Dysgu a Benthyciadau Cynhaliaeth ar gyfer y flwyddyn gyfredol ac unrhyw rai a gymerwyd allan mewn blynyddoedd blaenorol) ond roedd hefyd yn cynnwys gorddrafftiau banc, ôl-ddyledion a chredyd masnachol.

10.7 Ychydig iawn o fyfyrwyr amser llawn a ddefnyddiodd fenthyca masnachol, roedd gan 16% ddyled credyd masnachol fel cardiau credyd (18% yn 2014 i 2015) ac roedd gan 18% orddrafft, gostyngiad o 17 pwynt canran rhwng 2014 i 2015 pan nododd 35% o fyfyrwyr amser llawn fod ganddynt orddrafft. Roedd gan fyfyrwyr

amser llawn sydd â chredyd masnachol fenthyciadau credyd masnachol canolrifol o £2,000.

10.8 Roedd cyfran y myfyrwyr rhan-amser sy'n defnyddio credyd masnachol yn sylweddol uwch na'r hyn a ganfuwyd ar gyfer myfyrwyr amser llawn (49%). Roedd myfyrwyr rhan-amser gyda chredyd masnachol wedi benthyg canolrif o £3,000 (50% yn fwy na myfyrwyr amser llawn).

**Dyled net**

10.9 Drwy gymharu cynilion a benthyca myfyrwyr, mae'n bosibl ystyried sefyllfa ariannol gyffredinol myfyriwr. Cyfrifwyd dyled net myfyrwyr ar gyfer pob myfyriwr drwy dynnu'r swm disgwyliedig o gynilion ar ddiwedd y flwyddyn academaidd, o gyfanswm y ddyled neu'r benthyca disgwyliedig y byddai'n ddyledus ganddynt ar yr un pwynt. Mae cyfanswm benthyca yn cynnwys Benthyciadau Ffioedd Dysgu yn ogystal â Benthyciadau Cynhaliaeth er mwyn rhoi darlun cyflawn o gyllid myfyrwyr. Mae'n annhebygol y bydd benthyca ar ffurf benthyciadau a adroddir isod yn cynnwys llog, sy'n dechrau cronni o'r adeg y caiff y benthyciad ei drefnu. Mae ffigurau dyled net yn cael eu hadrodd i'r rhai a roddodd wybodaeth ddibynadwy am Fenthyciadau Ffioedd Dysgu (cyfredol ac yn weddill).[78]

10.10 Cynyddodd lefelau 'dyled net' (h.y. benthyca, llai cynilion disgwyliedig) ymhlith grŵp cymharol o fyfyrwyr[79] gyda nifer y blynyddoedd o astudio, yn bennaf wrth i fyfyrwyr gronni mwy o ddyled benthyciad i fyfyrwyr.

10.11 Ymysg myfyrwyr amser llawn, roedd dyled net canolrifol yn £14,800 ar gyfer myfyrwyr parhaus yn eu blwyddyn gyntaf, £25,800 ar gyfer myfyrwyr parhaus yn eu hail flwyddyn, £46,850 i'r rhai y tu hwnt i'w hail flwyddyn ond nid eto yn eu blwyddyn olaf, a £38,000 i'r rhai ym mlwyddyn olaf cwrs tair blynedd neu hirach. O gymharu canfyddiadau'r arolwg yn 2014 i 2015 (addaswyd ar gyfer chwyddiant) a 2021 i 2022, roedd lefelau dyled net canolrifol ar draws yr holl flynyddoedd academaidd i fyfyrwyr amser llawn wedi cynyddu. Ar gyfer myfyrwyr amser llawn blwyddyn gyntaf ar gwrs hirach, y rhai y tu hwnt i'w hail flwyddyn ond nad ydynt eto yn eu blwyddyn olaf a'r rhai ym mlwyddyn olaf cwrs tair blynedd neu fwy, gwelwyd bod lefelau dyled net canolrifol wedi mwy na dyblu. Ar gyfer myfyrwyr blwyddyn gyntaf, cynyddodd lefelau dyled net canolrifol o £6,575 yn 2014 i 2015 (addaswyd ar gyfer chwyddiant)

[78] Gweler yr adroddiad technegol am fwy o wybodaeth.
[79] Mae hynny i gyd yn fyfyrwyr rhan-amser sy'n astudio o leiaf 25% cyfwerth ag amser llawn, pob myfyriwr amser llawn yn eu blwyddyn gyntaf o astudio, a myfyrwyr amser llawn yn eu hail flwyddyn astudio o leiaf a nododd fod ganddynt ddyled benthyciad i fyfyriwr sy'n weddill.

i £14,800 yn 2021 i 2022. Ar gyfer y rhai y tu hwnt i'w hail flwyddyn (ond nid yn eu blwyddyn olaf), cynyddodd lefelau dyled net canolrifol o £21,087 yn 2014 i 2015 (addaswyd ar gyfer chwyddiant) i £46,850 yn 2021 i 2022, ac i'r rhai yn eu blwyddyn olaf o gyrsiau a oedd wedi para o leiaf dair blynedd, cynyddodd lefelau dyled net canolrifol o £15,433 yn 2014 i 2015 (addaswyd ar gyfer chwyddiant) i £38,000 yn 2021 i 2022. Yn yr un modd, ar gyfer myfyrwyr ail flwyddyn ar gwrs hirach, cynyddodd lefelau dyled net canolrifol 94% o £13,294 yn 2014 i 2015 (addaswyd ar gyfer chwyddiant) i £25,800 yn 2021 i 2022.

10.12 Ymysg myfyrwyr rhan-amser roedd y ffigurau dyled net canolrifol yn £5,500 i fyfyrwyr blwyddyn gyntaf, £6,432 i fyfyrwyr ail flwyddyn, £7,800 i'r rhai y tu hwnt i'w hail flwyddyn (ond nid yn eu blwyddyn olaf) a £7,850 i'r rhai yn eu blwyddyn olaf o gyrsiau a oedd wedi para o leiaf tair blynedd. Cynyddodd lefelau dyled net canolrifol 44% yn 2021 i 2022 i fyfyrwyr blwyddyn gyntaf, o ganolrif 2014 i 2015 wedi'i addasu o £3,825, a gwelwyd fod y ddyled wedi na dyblu i fyfyrwyr ail flwyddyn, o ganolrif 2014 i 2015 wedi'i addasu o £2,300. Cynyddodd y lefelau dyled net canolrifol fwyaf i'r rhai y tu hwnt i'w hail flwyddyn (ond nid yn eu blwyddyn olaf) a'r rhai yn eu blwyddyn olaf o gwrs a oedd wedi para o leiaf tair blynedd, gyda lefelau dyled net canolrifol myfyrwyr trydedd flwyddyn parhaus yn cynyddu bumplyg o £1,400 i £7,800 rhwng 2014 i 2015 (addaswyd ar gyfer chwyddiant) a 2021 i 2022, a chynnydd triphlyg mewn lefelau dyled net canolrifol myfyrwyr trydedd flwyddyn yn eu blwyddyn olaf o £2,400 i £7,850 dros yr un cyfnod.

## 11. Cymariaethau o’r sefyllfa ariannol â Lloegr

### Cynilion

11.1 At ei gilydd, roedd gan gyfran ychydig yn is o fyfyrwyr amser llawn sy'n hanu o Gymru gynilion ar ddechrau'r flwyddyn o'i gymharu â myfyrwyr amser llawn sy’n hanu o Loegr (66% o'i gymharu â 70%). Adroddodd cyfrannau tebyg y byddai ganddynt gynilion o hyd ar ddiwedd y flwyddyn academaidd (65% a 69% yn y drefn honno).

11.2 O'r myfyrwyr amser llawn sy'n hanu o Gymru gyda chynilion, lefel canolrifol eu cynilion oedd £2,000 ar ddechrau ac ar ddiwedd y flwyddyn academaidd. Mae hyn yn cyferbynnu â £3,000 o gynilion canolrifol ar ddechrau'r flwyddyn academaidd ar gyfer myfyrwyr amser llawn sy’n hanu o Loegr gyda chynilion, a’r rheiny’n rhagweld y byddai ganddynt £2,500 ar ddiwedd y flwyddyn academaidd. Yn 2014 i 2015, roedd gan fyfyrwyr amser llawn sy’n hanu o Gymru ac sy’n hanu o Loegr lefelau

llawer mwy tebyg o gynilion ar ddechrau’r flwyddyn academaidd gan ragweld sefyllfa debyg ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.

11.3 Roedd cyfran y myfyrwyr â chynilion yn sylweddol is ar gyfer myfyrwyr rhan-amser sy’n hanu o Gymru a myfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Loegr, gyda myfyrwyr rhan-amser sy’n hanu o Gymru'n lleiaf tebygol o fod wedi adrodd fod ganddynt gynilion ar ddechrau'r flwyddyn academaidd (45%) o'i gymharu â 54% ar gyfer myfyrwyr sy’n hanu o Loegr. Y cyfrannau cyfatebol ar gyfer cynilion a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn academaidd oedd 44% ar gyfer myfyrwyr rhan-amser sy’n hanu o Gymru a 56% ar gyfer myfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Loegr.

11.4 Roedd lefelau canolrifol o gynilion ymhlith myfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Gymru gyda chynilion yn uwch ar ddechrau'r flwyddyn academaidd nag ymhlith myfyrwyr amser llawn (£2,500 o'i gymharu â £2,000). Ar gyfer myfyrwyr amser llawn a rhan-amser sy’n hanu o Loegr, roedd lefelau canolrifol o gynilion yr un fath ar ddechrau'r flwyddyn academaidd sef £3,000.

11.5 Rhagwelwyd y byddai lefelau canolrifol o gynilion yn is ar ddiwedd y flwyddyn academaidd ymhlith myfyrwyr rhan-amser sy’n hanu o Gymru a rhai sy'n hanu o Loegr fel ei gilydd. Rhagwelodd myfyrwyr rhan-amser sy’n hanu o Gymru y byddai ganddynt gynilion o £2,000 ar ddiwedd y flwyddyn o'i gymharu â £2,500 ar gyfer myfyrwyr rhan-amser sy’n hanu o Loegr.

**Benthyciadau**

11.6 Ar gyfartaledd, roedd lefelau benthyca yn sylweddol uwch ymhlith myfyrwyr amser llawn sy’n hanu o Loegr nag ymhlith myfyrwyr amser llawn sy’n hanu o Gymru, a chynyddodd y gwahaniaeth wrth i fyfyrwyr symud ymlaen trwy eu cyrsiau.

11.7 Roedd gan y rhan fwyaf o fyfyrwyr fenthyciadau, 97% o fyfyrwyr amser llawn sy'n hanu o Gymru o'i gymharu â 95% o fyfyrwyr amser llawn sy’n hanu o Loegr, ac 82% o fyfyrwyr rhan-amser sy’n hanu o Gymru ac o Loegr. Ar gyfer y ddau grŵp, roedd benthyca ar ffurf benthyciadau myfyrwyr yn bennaf (gan gynnwys Benthyciadau Ffioedd Dysgu a Benthyciadau Cynhaliaeth ar gyfer y flwyddyn gyfredol ac unrhyw rai a gymerwyd allan mewn blynyddoedd blaenorol) ond roedd hefyd yn cynnwys gorddrafftiau banc, ôl-ddyledion a chredyd masnachol.

11.8 Dim ond 16% o fyfyrwyr amser llawn sy’n hanu o Gymru ac ychydig yn is na 14% o fyfyrwyr amser llawn sy’n hanu o Loegr oedd â dyled credyd masnachol fel cardiau credyd ac roedd gan 18% o fyfyrwyr amser llawn sy’n hanu o Gymru orddrafft o'i gymharu ag 20% o fyfyrwyr amser llawn sy’n hanu o Loegr. Roedd benthyciadau

credyd masnachol canolrifol yr un fath ar gyfer myfyrwyr amser llawn sy’n hanu o Gymru a myfyrwyr amser llawn sy’n hanu o Loegr, sef £2,000. Roedd cyfran y myfyrwyr rhan-amser a oedd yn defnyddio credyd masnachol yn sylweddol uwch na'r hyn a ganfuwyd ar gyfer myfyrwyr amser llawn ac yn debyg i fyfyrwyr rhan-amser sy’n hanu o Gymru a myfyrwyr rhan-amser sy’n hanu o Loegr (49% a 46% yn y drefn honno). Roedd myfyrwyr rhan-amser sy’n hanu o Gymru ac o Loegr gyda chredyd masnachol wedi benthyg symiau tebyg (canolrif o £3,000 ar gyfer myfyrwyr sy’n hanu o Gymru o'i gymharu â £3,100 ar gyfer myfyrwyr sy’n hanu o Loegr).

**Dyled net**

11.9 Cynyddodd lefelau 'dyled net' (h.y. benthyca, llai cynilion disgwyliedig) ymhlith grŵp cymharol o fyfyrwyr[80] gyda nifer y blynyddoedd o astudio, yn bennaf wrth i fyfyrwyr gronni mwy o ddyled benthyciad i fyfyrwyr yn achos myfyrwyr sy’n hanu o Gymru ac sy’n hanu o Loegr.

11.10 Ymhlith myfyrwyr amser llawn a rhan-amser, gan edrych ar flwyddyn y grwpiau astudio ar wahân, roedd lefelau dyled net yn uwch ymhlith myfyrwyr sy’n hanu o Gymru o’i gymharu â myfyrwyr sy’n hanu o Loegr yn eu blwyddyn gyntaf ac i'r myfyrwyr hynny y tu hwnt i'w hail flwyddyn ond nid eto yn eu blynyddoedd olaf, ond roeddent yn is ymhlith myfyrwyr sy'n hanu o Gymru o'i gymharu â myfyrwyr sy'n hanu o Loegr yn yr ail flwyddyn a'r rhai ym mlwyddyn olaf eu cwrs.

11.11 Ymysg myfyrwyr amser llawn, y ddyled net canolrifol ymhlith myfyrwyr sy'n hanu o Gymru oedd £14,800 i fyfyrwyr blwyddyn gyntaf (ar gwrs hirach), o'i gymharu â £13,550 i fyfyrwyr sy'n hanu o Loegr; £25,800 ar gyfer myfyrwyr ail flwyddyn sy'n hanu o Gymru (ar gwrs hirach) o'i gymharu â £27,800 ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Loegr, £46,850 i fyfyrwyr sy’n hanu o Gymru sydd y tu hwnt i'w hail flwyddyn ond ddim eto yn eu blwyddyn olaf o'i gymharu â £37,500 ar gyfer myfyrwyr sy’n hanu o Loegr, a £38,000 i'r myfyrwyr hynny sy'n hanu o Gymru ym mlwyddyn olaf cwrs tair blynedd neu hirach o'i gymharu â £43,000 ar gyfer myfyrwyr sy’n hanu o Loegr.

11.12 Ymysg myfyrwyr rhan-amser, y ddyled net canolrifol ymhlith myfyrwyr sy'n hanu o Gymru oedd £5,500 i fyfyrwyr blwyddyn gyntaf, o'i gymharu â £4,750 i fyfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Loegr; £6,432 ar gyfer myfyrwyr ail flwyddyn sy'n hanu o Gymru o'i gymharu â £7,504 ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Loegr, £7,800 i fyfyrwyr sy’n hanu o Gymru sydd y tu hwnt i'w hail flwyddyn (ond ddim eto yn eu blwyddyn olaf)

[80] Hynny yw, myfyrwyr rhan-amser sy'n astudio o leiaf 25% cyfwerth ag amser llawn, pob myfyriwr amser llawn yn eu blwyddyn gyntaf o astudio, a myfyrwyr amser llawn yn eu hail flwyddyn astudio o leiaf a nododd fod ganddynt ddyled benthyciad i fyfyriwr sy’n weddill.

o'i gymharu â £12,950 ar gyfer myfyrwyr sy’n hanu o Loegr, a £7,850 i'r myfyrwyr hynny sy'n hanu o Gymru ym mlwyddyn olaf cwrs tair blynedd neu hirach o'i gymharu â £5,000 ar gyfer myfyrwyr sy’n hanu o Loegr.

## 12. Rhagor o wybodaeth

12.1 I gael rhagor o wybodaeth am ddyluniad sampl, casglu data a chynnwys y set ddata, gweler yr adroddiad technegol ar wahân. Am ganfyddiadau manylach o'r arolwg, gweler y gyfres o dablau. Mae'r rhain yn darparu gwybodaeth am ffynonellau a symiau incwm a gwariant myfyrwyr, a dadansoddiad yn ôl nodweddion demograffig myfyrwyr allweddol fel rhywedd a grŵp economaidd-gymdeithasol, a nodweddion astudio allweddol megis blwyddyn astudio a math o gwrs.

# 13. Atodiad A – Manylion technegol

### Ymateb i'r arolwg

13.1 Mae Tabl 1 yn dangos cyfraddau cwblhau'r holiadur ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru.

**Tabl 1: Cyfraddau cwblhau holiadur darparwyr addysg uwch (DAU) a sefydliadau addysg bellach (SAB) Cymru (ac eithrio'r Brifysgol Agored (OU))**

| | Wedi'i gwblhau | Anghyflawn[81] |
|---|---|---|
| Cyfan | 1,972 | 8,139 |
| DAU yng Nghymru | 1,625 | 5,909 |
| SAB yng Nghymru | 347 | 2,230 |
| Amser llawn | 1,276 | 4,678 |
| Rhan-amser | 696 | 3,460 |
| Gwryw | 723 | 3,249 |
| Benyw | 1,093 | 4,285 |

Sylfaen: Myfyrwyr sy'n mynychu DAU neu SAB yng Nghymru a samplwyd ar gyfer AIGM2021 i 2022
Ffynhonnell: NatCen/IES 2021 i 2022

### Ymateb ar ffurf dyddiadur

13.2 Mae Tabl 2 yn dangos lefel y dyddiaduron a ddychwelwyd ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru. Cwblhawyd y dyddiadur gwariant saith diwrnod gan 21.3% o'r myfyrwyr sy'n hanu o Gymru a gwblhaodd yr holiadur.

**Tabl 2: Cyfraddau cwblhau dyddiaduron gan fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru (ac eithrio'r OU)**

| | Wedi'i gwblhau | Anghyflawn |
|---|---|---|
| Popeth | 806 | 1,243 |
| DAU yng Nghymru | 502 | 763 |
| SAB | 103 | 241 |
| Amser llawn | 575 | 839 |
| Rhan-amser | 231 | 404 |
| Gwryw | 251 | 543 |
| Benyw | 554 | 698 |

Sylfaen: Myfyrwyr a samplwyd ar gyfer AIGM 2021 i 2022

Ffynhonnell: NatCen/IES 2021 i 2022

[81] Mae holiaduron anghyflawn yn cynnwys myfyrwyr a gafodd wahoddiad i gymryd rhan yn yr arolwg ond na wnaeth gymryd rhan.